# Adolygiad o'r cyfryngau lleol yn y DU

Rhan 2: Adroddiad terfynol

Cyhoeddwyd 29 Tachwedd 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Ein hadolygiad o gyfryngau lleol ... 7
3. Asesu effaith newidiadau i newyddion lleol y BBC ... 9
4. Y dirwedd newyddion lleol ... 15
5. Cefnogi newyddion lleol drwy reoleiddio ... 22
6. Opsiynau ehangach i'w hystyried ... 31
7. Y camau nesaf ... 47

# 1. Trosolwg

1.1 Dyma'r ail adroddiad yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol. Mae newyddion lleol yn parhau i chwarae rhan ddibynadwy a manwl ym mywydau pobl ledled y Deyrnas Unedig ac yn y gymdeithas yn ehangach. Gall fod yn ffynhonnell ddibynadwy o newyddion a gwybodaeth gyfoes i gynulleidfaoedd lleol, a helpu i gefnogi democratiaeth leol a dal pŵer i gyfrif. Daeth ei bwysigrwydd i'r amlwg pan welwyd yr anrhefn treisgar yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yr haf hwn, a thynnodd sylw at yr angen am leisiau lleol cryf a all helpu i fod yn rhwystr rhag camwybodaeth a thwyllwybodaeth, dod â chymunedau at ei gilydd a chreu ymdeimlad o hunaniaeth ar y cyd. Gellid dadlau nad yw'r angen am newyddion lleol hynod weladwy, hygyrch a dibynadwy erioed wedi bod yn fwy.

1.2 Yn rhan gyntaf ein Hadolygiad, fe wnaethom nodi ein canfyddiadau cychwynnol a oedd yn dangos yr heriau cynyddol o ran cynnal y ddarpariaeth newyddion lleol dibynadwy a chywir ledled y DU.

1.3 Yn yr ail gyhoeddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar effaith y BBC ar gystadleuaeth yn y sector newyddion lleol. Rydym hefyd yn amlinellu amrywiaeth o opsiynau a gyflwynwyd i ni, gan randdeiliaid neu a gynigiwyd mewn adolygiadau blaenorol, ar gyfer ffyrdd y gellid helpu'r sector i helpu i sicrhau bod newyddion lleol dibynadwy sydd ar gael yn eang yn parhau ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

## Asesu effaith newidiadau i newyddion lleol y BBC

1.4 Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan y Llywodraeth yn Ionawr 2024 yn ei Adolygiad Canol Tymor o'r BBC ein bod yn cyhoeddi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol ac yn nodi ein dull o ystyried effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC yn y dyfodol o ran cystadleuaeth.

1.5 Mae'r BBC yn parhau i ddatblygu dull gweithredu ar draws llwyfannau ar gyfer darparu ei wasanaethau, ond rydyn ni wedi nodi ein safbwyntiau yn ôl llwyfan darparu oherwydd rydyn ni'n credu bod y gystadleuaeth agosaf yn dal i fodoli rhwng darparwyr gwasanaethau lleol ar yr un llwyfan ar hyn o bryd. Yn gryno, dyma ein safbwyntiau, ar sail cyd-destun y farchnad bresennol:

a) Ar gyfer radio lleol, yn gyffredinol mae cynulleidfaoedd yn gwrando ar radio lleol/gwledydd y BBC a gorsafoedd radio masnachol lleol am wahanol resymau ac am wahanol gynnwys. Felly, rydym yn credu ei bod yn annhebygol y byddai cynyddu newyddion lleol ar ei wasanaethau radio lleol yn cael effaith sylweddol ar gystadleuwyr.

b) Ar gyfer newyddion teledu rhanbarthol, rydym o'r farn bod mwy o botensial i newid o wylio newyddion rhanbarthol Channel 3 i'r BBC os bydd y BBC yn cynyddu neu'n gwella ei gynnig, ond mae'n anodd iawn i ni asesu i ba raddau y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael effaith ar gystadleuaeth heb wybod beth allai'r newidiadau hyn fod.

c) Ar gyfer newyddion lleol ar-lein, roeddem wedi ymrwymo i fonitro effaith allbwn ehangach y BBC o straeon newyddion lleol, a'i fynegeion newyddion lleol newydd. Ers i'r BBC gynyddu ei allbwn newyddion ar-lein lleol yn ystod 2023, rydym wedi canfod bod ei ymweliadau â thudalennau wedi cynyddu. Fe wnaethom hefyd ganfod bod lefelau

gwylio newyddion ar-lein lleol (a heb fod yn lleol) wedi gostwng ers 2022. Fodd bynnag, nid yw ein dadansoddiad wedi dod o hyd i dystiolaeth sylweddol bod cysylltiad achosol rhwng y ddau. Mae'n ymddangos bod y gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau masnachol yn rhan o duedd tymor hwy a oedd yn bodoli cyn newidiadau'r BBC, er ein bod yn cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod yn cyfrannu i ryw raddau.

d) Gan edrych ymlaen, rydym yn cydnabod bod mwy o newyddion lleol ar-lein y BBC yn rhan o'r heriau sy'n wynebu cyhoeddwyr lleol ac efallai y bydd rhai ardaloedd lleol lle mae lefelau gwylio'r BBC yn disodli lefelau gwylio masnachol. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd newidiadau'r BBC yn y dyfodol yn cael effaith wahanol ar gyhoeddwyr masnachol. Er enghraifft, roedd ein hymchwil ansoddol yn nodi petai'r BBC yn darparu cynnwys ar-lein mwy lleol y gallai pobl ei ddewis ar draul ffynonellau ar-lein eraill, sy'n awgrymu mwy o botensial ar gyfer amnewid. Felly, efallai y bydd angen i'r BBC ac Ofcom ystyried rhai newidiadau i'r BBC yn y dyfodol ymhellach.

1.6 Mae ein canfyddiadau'n fan cychwyn ar gyfer unrhyw asesiad cystadleuaeth yn y dyfodol a bydd angen i'r BBC ac Ofcom ystyried effaith newidiadau sylweddol y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud ar gystadleuaeth, ac ystyried sut gallai'r newidiadau hyn yn effeithio ar gystadleuaeth. Rydym hefyd yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad yn ofalus, gan gynnwys drwy ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid.

# Cynnal darpariaeth newyddion lleol yn y dyfodol

## Cyd-destun

1.7 Yn rhan gyntaf ein Hadolygiad, fe wnaethom nodi'r amrywiaeth o heriau o ran cynnal y ddarpariaeth newyddion lleol dibynadwy a chywir ledled y DU. Mae'r rhain yn cynnwys: cynulleidfaoedd sy'n symud o ffynonellau newyddion print a theledu i rai ar-lein; llai o refeniw hysbysebu; ehangu rôl cyfryngwyr ar-lein yn y gadwyn gwerth newyddion; cystadleuaeth ffyrnig ar-lein am sylw cynulleidfaoedd sy'n anfodlon talu am newyddion i raddau helaeth; yn ogystal â niferoedd cynyddol o bobl sy'n ymddieithrio oddi wrth newyddion neu'n mynd ati i osgoi newyddion yn ehangach.

1.8 Mae cyfuno a thoriadau mewn ymateb i'r heriau hyn wedi effeithio ar ddarpariaeth newyddion lleol ar draws teledu, radio a phrint. Mae gan y newidiadau hyn y potensial hefyd i wanhau perthnasedd lleol cynnwys, a gallant achosi risg o leihau lluosogrwydd newyddion ac ansawdd yr allbwn. Erbyn hyn, mae amrywiaeth sylweddol o ran ystod a maint y newyddion lleol sydd ar gael mewn gwahanol rannau o'r DU.

1.9 Yn fwy cadarnhaol, gwelsom fod darparwyr newyddion o wahanol siapiau a meintiau yn chwilio am ffyrdd o arloesi i ddenu cynulleidfaoedd a chynhyrchu ffrydiau refeniw newydd. Mae teitlau bach ac annibynnol wedi ymddangos ledled y DU, yn aml gyda ffocws ar ddarparu newyddion manwl i gymunedau penodol ac maent yn arbrofi gyda modelau refeniw, gan gynnwys aelodaeth neu lwyfannau tanysgrifio fel Substack. Mae rhai cyhoeddwyr mwy hefyd yn dechrau cael rhywfaint o lwyddiant gyda waliau talu a thanysgrifiadau. Mae technolegau newydd, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, yn darparu cyfleoedd ac mae darparwyr yn archwilio gwahanol fathau o gynnwys i ddenu cynulleidfaoedd, gan gynnwys podlediadau, fideos a chynnwys a gynhyrchir gan

ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae'r amodau'n parhau'n anodd, mae'r cymorth yn gyfyngedig ac mae llawer yn y sector yn ei chael hi'n anodd ffynnu.

## Opsiynau a awgrymir i helpu i gefnogi newyddion lleol cynaliadwy

1.10 Mae'r gwerth y gall newyddion lleol ei ddarparu i bobl leol a'i rôl bwysig mewn cymdeithas yn ehangach yn golygu y bydd yn niweidiol i gynulleidfaoedd, fel defnyddwyr ac fel dinasyddion, os nad oes amrywiaeth o newyddion lleol dibynadwy ar gael ar ba lwyfannau bynnag y maent yn dewis chwilio amdano.

1.11 Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu drwy gydol yr Adolygiad hwn, ar yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu a'r ymyriadau sydd ar gael ar hyn o bryd, yn awgrymu bod lle i wneud mwy i helpu i gefnogi darpariaeth newyddion lleol y gellir ymddiried ynddi yn y DU, a sicrhau manteision sector cyfryngau lleol mwy sefydlog i gynulleidfaoedd, cymdeithas a'r economi.

1.12 Rydym wedi nodi nifer o heriau sy'n debygol o fod yn ganolog yn ein barn ni wrth ystyried y ffordd orau o sicrhau sector cyfryngau lleol mwy cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys: sicrhau bod newyddion lleol dibynadwy a chywir ar gael yn eang, yn ogystal â mynediad hawdd atynt; gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o werth newyddion lleol iddyn nhw fel unigolion ac fel dinasyddion; a sicrhau ymgysylltiad cynulleidfaoedd â ffynonellau newyddion lleol dibynadwy.

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn casglu safbwyntiau ar nifer o ffyrdd posibl y gellid cefnogi'r sector newyddion lleol, ar draws teledu, radio, print ac ar-lein, gan ystyried yr heriau allweddol hyn. Mae hyn yn adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a gyflwynwyd gennym yn rhan gyntaf yr Adolygiad, o'n hymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid ar draws y dirwedd cyfryngau lleol, i ddadansoddiad o'r swm sylweddol o waith a wnaed yn flaenorol a oedd yn edrych ar newyddion lleol, gan gynnwys Adolygiad Cairncross (2019) ac ymchwiliad Pwyllgor DCMS i gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol (2023). Rydym yn cydnabod y bydd heriau ariannol yn cyfyngu ar yr hyn sy'n bosibl wrth ganfod cyllid i ddarparu cymorth ar gyfer newyddion lleol.

1.14 Mae rhai o'r opsiynau a gyflwynir yn defnyddio dull canolog, o'r brig i lawr o gefnogi newyddion lleol, neu gallai gefnogi'r sector newyddion ehangach, yn hytrach na dim ond newyddion lleol. Os rhoddir ystyriaeth bellach i unrhyw un o'r syniadau hyn, bydd yn bwysig cymhwyso'r rhain mewn ffordd sy'n cydnabod yr amrywiaeth o anghenion mewn gwahanol gymunedau ac amgylcheddau cyfryngau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

1.15 Mae'r syniadau a gyflwynwyd yn cynnwys:

a) cronfa arloesi, sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyllid sbarduno tymor byr ar gyfer darparwyr newyddion lleol;
b) Sefydliad Newyddion er Budd y Cyhoedd i helpu i gefnogi cynaliadwyedd newyddion er budd y cyhoedd yn y DU; ac
c) ystyried y rheolau hysbysiadau cyhoeddus presennol, a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau posibl iddynt.

1.16 Er na allwn gefnogi nac argymell unrhyw un o'r safbwyntiau a gyflwynir, gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn ysgogi rhagor o sgyrsiau i gefnogi datblygiad polisi ehangach, yn enwedig yng ngoleuni cynlluniau'r Llywodraeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ddatblygu strategaeth cyfryngau lleol.

1.17 Rydym hefyd wedi nodi ein sylwadau ar y canlynol:

a) syniadau i ehangu a/neu wella'r Bartneriaeth Newyddion Lleol a'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol (LDRS);
b) sut gallai awdurdodau lleol a meiri metro chwarae rhan yn y gwaith o gefnogi ecoleg newyddion lleol yn eu hardaloedd; ac
c) ystyriaethau i'r sector ei hun ar: ddatblygu rhaglenni llythrennedd newyddion ar gyfer eu cymunedau lleol; ac ar y potensial i arloesi a chydweithio mwy.

1.18 Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar ddyfodol newyddion yn y dyddiau yn union cyn yr adroddiad hwn. 4O ganlyniad, nid yw ei canfyddiadau'r adroddiad wedi cyfrannu at ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol. Nodwn fod y ddau gyhoeddiad yn cyffwrdd â rhai o'r un materion a syniadau, gan gynnwys cyllid arloesi, y rheolau ar gyfer hysbysiadau cyhoeddus, yr LDS a phartneriaethau eraill y BBC. Byddwn yn ystyried argymhellion perthnasol a wneir gan y Pwyllgor yn ein gwaith yn y dyfodol.

## Gwaith Ofcom yn y dyfodol

1.19 Rydym hefyd yn defnyddio'r adroddiad hwn i egluro'r amrywiaeth o waith mae Ofcom yn ei wneud i gyflawni ein dyletswyddau a hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â chyfryngau lleol. Rydym yn nodi'r ffyrdd y byddwn yn parhau i ystyried y dirwedd cyfryngau lleol, gan gynnwys sut gallwn gefnogi dyfodol newyddion lleol i gyflawni ein dyletswyddau a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu parhau i gael gafael ar newyddion lleol dibynadwy a chywir pan fo hynny'n eu siwtio nhw. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

a) dal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd am gyflawni ei gylch gwaith, gan gynnwys ei wasanaethau lleol a rhanbarthol, er enghraifft drwy ein Hadroddiadau Blynyddol ar y BBC, gan gynnwys ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 ar y BBC sydd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad terfynol hwn, ac wrth asesu effaith gystadleuol newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau;
b) rhoi newidiadau ar waith i reoleiddio radio masnachol lleol a gyflwynwyd gan Ddeddf y Cyfryngau;
c) gweithredu newidiadau i reoleiddio radio cymunedol i gydnabod y manteision cymdeithasol a ddarperir gan y gwasanaethau hyn;
d) gwneud gwaith i adnewyddu trwyddedau teledu lleol; ac
e) ymgymryd â gwaith i gefnogi newyddiaduraeth leol drwy gomisiynu rhaglen o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion, gan eu grymuso i wrthsefyll camwybodaeth a thwyllwybodaeth drwy ddatblygu sgiliau llythrennedd cyfryngau a newyddion.

1.20 Gallwn hefyd gyhoeddi ein bod yn bwriadu cynnal rhagor o ymchwil yn 2025 i adnewyddu a diweddaru ein harolwg o gynulleidfaoedd newyddion lleol, a gynhaliwyd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2023.

1.21 Yn fwy cyffredinol, mae modd gweld llawer o'r heriau sy'n cael eu nodi fel rhai sy'n effeithio ar y sector newyddion lleol yn y dirwedd newyddion ehangach hefyd. Bydd ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM) yn bwrw ymlaen â llawer o'r materion rydyn ni wedi'u nodi yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol, gan gynnwys sut rydyn ni'n cefnogi gallu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i newyddion o ansawdd uchel o ystyried rôl gynyddol cyfryngwyr ar-lein, a sut gall darlledwyr a llwyfannau gefnogi llythrennedd cynulleidfaoedd mewn perthynas â chyfryngau i'w helpu i liniaru effaith camwybodaeth a thwyllwybodaeth.

# 2. Ein hadolygiad o gyfryngau lleol

## Cyd-destun ein cynigion

2.1 Fe wnaethom lansio ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol dau gam ddiwedd 2023 a oedd yn rhoi sylw i wybodaeth a newyddion lleol ar y teledu, ar y radio, mewn print ac ar-lein. Mae gan Ofcom amrywiaeth o ddyletswyddau sy'n berthnasol i gyfryngau lleol ac felly mae'n bwysig ein bod yn cynnal dealltwriaeth gyfredol a chynhwysfawr o'r sector.

2.2 Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys goruchwylio perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, yn ogystal â hyrwyddo cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae gennym ddyletswyddau hefyd sy'n ymwneud â theledu lleol, radio masnachol lleol a gwasanaethau radio cymunedol. Wrth gyflawni'r rolau hyn, rhaid i ni ddefnyddio ein prif ddyletswydd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, yn ogystal â chyfres ehangach o ddyletswyddau i gynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol a sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau darlledu o ansawdd uchel ar gael.

2.3 Fel rhan o'n hadolygiad hyd yma, rydym wedi:

a) cyhoeddi cylch gorchwyl ym mis Rhagfyr 2023 a oedd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer ein hadolygiad. Yn dilyn hyn, ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Hadolygiad Canol Tymor o'r BBC yn argymell ein bod yn cyhoeddi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol ac yn nodi ein dull o ystyried effaith newidiadau i newyddion lleol y BBC yn y dyfodol o ran cystadleuaeth. Rydym wedi dewis mynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol.

b) cyhoeddi ein canfyddiadau cychwynnol ym mis Gorffennaf 2024. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar argaeledd cyfryngau lleol yn y DU, yn enwedig newyddion lleol, ac yn rhoi cipolwg ar sut mae pobl yn eu defnyddio. Fe wnaethom gynnwys canfyddiadau o'n hymchwil defnyddwyr ansoddol i gyfryngau lleol yn y DU ar ganfyddiadau pobl o gyfryngau lleol a nodi'r themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'n trafodaethau â rhanddeiliaid. Fe wnaethom hefyd roi gwybodaeth am y gwaith y byddem yn ei wneud i gyfrannu at yr adroddiad terfynol hwn.

2.4 Mewn ymateb i'n canfyddiadau cychwynnol, rhoddodd rhai rhanddeiliaid wybodaeth ychwanegol i ni fel sail i'n hadolygiad. Lle bo'n berthnasol, rydym wedi ystyried hyn wrth gynhyrchu'r adroddiad terfynol hwn. Mae crynodeb o'r cyflwyniadau ar gael yn Atodiad 1. Rydym hefyd wedi cynnal rhagor o waith ymgysylltu a dadansoddi â rhanddeiliaid i lywio ein canfyddiadau.

## Yr adroddiad terfynol hwn a thu hwnt

2.5 Yn y rhan hon o'n Hadolygiad, rydym yn rhoi sylw manwl i'r argymhellion a wnaed gan y llywodraeth yn ei Hadolygiad Canol Tymor o'r BBC, ac yn cyflawni ein hymrwymiad i fonitro effaith newidiadau'r BBC i newyddion lleol ar-lein. Rydym hefyd yn adeiladu ar y themâu a nodwyd yn ein hadroddiad interim ac yn casglu safbwyntiau ar gamau gweithredu posibl a allai gefnogi cynaliadwyedd darpariaeth newyddion lleol yn y dyfodol. Er mai'r adroddiad

hwn yw'r cam olaf yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol, byddwn yn parhau i wneud amrywiaeth eang o waith sy'n berthnasol i'n dyletswyddau yn y sector cyfryngau lleol.

# 3. Asesu effaith newidiadau i newyddion lleol y BBC

## Monitro newidiadau newyddion ar-lein lleol y BBC

3.1 Yn 2022, cyhoeddodd y BBC gyfres o newidiadau o ran ei wasanaethau lleol a oedd yn cynnwys cynyddu allbwn newyddion ar-lein lleol ar draws gwefan ac ap BBC News ar gyfer Lloegr a lansio ardaloedd newyddion lleol ar-lein newydd o'r enw "mynegeion" yn Peterborough, Wolverhampton, Bradford a Wear.[1] Fe wnaethom adolygu asesiad perthnasedd y BBC ac, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael bryd hynny, roeddem yn cytuno â'r BBC nad oedd y newid yn un a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ac felly nad oedd yn newid perthnasol. Fe wnaethom ddweud y byddem yn monitro cynnydd ac yn casglu gwybodaeth gan y BBC a gweithredwyr masnachol i ystyried gwir effaith newidiadau'r BBC ar gynulleidfaoedd.[2]

3.2 Rydym wedi cynnal asesiad manwl o effaith newidiadau'r BBC i newyddion lleol ar-lein ar ddarparwyr newyddion lleol masnachol, sy'n cael ei gyflwyno yn Atodiad 2. Isod, rydym yn crynhoi'r prif ganfyddiadau.

3.3 Yn gyntaf, fe wnaethom edrych ar y tueddiadau cyffredinol o ran gwylio newyddion lleol a heb fod yn lleol ar-lein ar gyfer cyhoeddwyr newyddion masnachol a'r BBC rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mehefin 2024. Gwelsom ostyngiad cyffredinol mewn ymweliadau â thudalennau ar gyfer cyhoeddwyr ar-lein masnachol ar gyfer newyddion lleol a heb fod yn lleol. Gwelsom hefyd rywfaint o ostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau ar gyfer newyddion nad yw'n lleol gan y BBC. Mae'r duedd o ostyngiad mewn ymweliadau â thudalennau masnachol yn ôl-ddyddio'r newidiadau a wnaeth y BBC i newyddion lleol ar-lein ac mae'n gyson â chanfyddiadau ymchwil arall. Er enghraifft, roedd Adroddiad Newyddion Digidol Sefydliad Reuters 2024 wedi canfod bod diddordeb yn y newyddion yn gostwng yn gyffredinol, gydag ymatebwyr yn y DU sydd â diddordeb mawr neu eithriadol yn y newyddion wedi gostwng o 70% yn 2015 i 38% yn 2024[3].

3.4 Mae ymweliadau â thudalennau ar gyfer newyddion lleol y BBC wedi cynyddu'n gyffredinol, sydd wedi cael ei sbarduno gan y cynnydd yn allbwn newyddion ar-lein lleol y BBC ledled Lloegr yn 2023/24. Gwnaethom gynnal amrywiaeth o waith dadansoddi (wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad 2) i ystyried a oedd y cynnydd yn y straeon lleol a'r ymweliadau â thudalennau y BBC yn arwain at ostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau masnachol yn yr ardaloedd hynny. Os yw lefelau gwylio masnachol yn symud i'r BBC, byddem yn disgwyl i'r ymweliadau â thudalennau masnachol ostwng fwyaf mewn ardaloedd mynegai lleol lle mae allbwn newyddion lleol y BBC yn cynyddu fwyaf. Ni welsom dystiolaeth sylweddol o hyn wrth

---

[1] Mynegeion lleol yw'r ardaloedd daearyddol lleol y mae'r BBC yn darparu newyddion ar eu cyfer. Mae un ardal newyddion neu "mynegai" ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac mae newyddion ar-lein yn cael ei ddarparu ar gyfer chwe ardal mynegai yn yr Alban a phum ardal mynegai yng Nghymru. Mae Lloegr wedi ei rhannu'n naw rhanbarth, pob un wedi ei rhannu'n ardaloedd llai gyda chyfanswm o 46 mynegai. Er enghraifft, mae rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr yn cynnwys mynegeion ar gyfer Derby, Caerlŷr, Swydd Northampton a Nottingham.

[2] Mae ein barn ar yr effaith ar y gynulleidfa mewn perthynas â radio wedi'i nodi yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC ar gyfer 2023-24.

[3] Astudiaeth Newyddiaduraeth Sefydliad Reuters, 2024. Reuters Institute Digital News Report 2024, t.51.

gynnal ein gwaith dadansoddi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod rhai ardaloedd lleol lle mae'r cynnydd yn nifer yr ymweliadau â thudalennau'r BBC yn cyfrannu at y gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau masnachol i ryw raddau.

3.5 Fe wnaethom hefyd gynnal dadansoddiad pellach ar lefel mynegai lleol i ystyried a oedd y ffaith bod y BBC wedi cyflwyno pedwar mynegai lleol newydd yn arwain at ostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau masnachol (gweler A2.32-37). Gwelsom fod straeon lleol y BBC a'r ymweliadau â thudalennau wedi cynyddu'n gyffredinol yn yr ardaloedd hyn ers lansio'r mynegeion newydd. Mewn dwy o'r pedair ardal, rydym yn gweld gostyngiad mewn lefelau gwylio masnachol wrth i lefelau gwylio'r BBC gynyddu. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod hyn yn barhad o duedd sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na chanlyniad uniongyrchol i fynegeion newydd y BBC. Ar gyfer y ddau fynegai arall, mae'r ymweliadau â thudalennau masnachol yn eithaf amrywiol ac nid oes tuedd gyffredinol amlwg. Felly, yn gyffredinol, ni welsom dystiolaeth bod y mynegeion newydd yn cael effaith sylweddol ar nifer yr ymweliadau â thudalennau lleol masnachol.

3.6 Yn gryno, rydym yn gweld bod lefelau gwylio newyddion ar-lein lleol masnachol a heb fod yn lleol y BBC wedi gostwng ers 2022. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth arall, gan gynnwys bod gan rai pobl lai o ddiddordeb yn y newyddion, ac yn osgoi'r newyddion yn gynyddol, a bod cyfeiriadau at newyddion gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook ac X yn gostwng am o leiaf rywfaint o'r cyfnod dan sylw [4] wrth i'r cwmnïau hyn wneud newidiadau algorithmig neu newidiadau eraill..[5] Ar ben hynny, ar draws Lloegr ac yn yr ardaloedd mynegai lleol newydd, ni welsom unrhyw dystiolaeth sylweddol bod mwy o straeon newyddion lleol ar y BBC yn arwain at ostyngiadau ychwanegol yn nifer yr ymweliadau â thudalennau lleol masnachol. At ei gilydd, nid yw ein dadansoddiad wedi dod o hyd i dystiolaeth sylweddol bod newidiadau'r BBC wedi arwain at lai o ymweliadau â thudalennau ar gyfer cyhoeddiadau masnachol ar draws y darlun cenedlaethol. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod mwy o newyddion lleol ar-lein y BBC yn rhan o'r heriau sy'n wynebu cyhoeddwyr lleol ac mae'n bosibl bod ymweliadau ychwanegol â thudalen y BBC yn disodli ymweliadau a thudalennau masnachol i ryw raddau mewn rhai ardaloedd lleol.

## Effaith bosibl newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC ar gystadleuaeth

3.7 Roedd Adolygiad Canol Tymor o'r BBC, y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn Ionawr 2024 yn argymell y dylai Ofcom gyhoeddi crynodebau blynyddol o'n barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol, yn ogystal â sut y byddem yn mynd ati i ystyried effaith cystadleuaeth newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC, fel rydym wedi gwneud yn flaenorol ar gyfer y sectorau clyweledol a sain.

3.8 Yn ein hadroddiad interim, rydym yn nodi'r prosesau a'r dull gweithredu y byddem yn eu dilyn i asesu effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC ar gystadleuaeth. Yn yr is-adran hon rydym yn rhoi crynodeb o'n barn ar sefyllfa bresennol y BBC o ran newyddion

[4] Press Gazette, 9 Mai 2024. Facebook referral traffic for publishers down 50% in 12 months; Reuters Institute, Ionawr 2024. Journalism, Media, and Technology Trends and Predictions 2024; ac Enders Analysis, 29 Ebrill 2024. Life after Facebook: Quo vadis for news distribution.

[5] AP, 5 Hydref 2023. X removes article headlines in latest platform update, widening a rift with news media. Meta, 5 Medi 2023. An Update on Facebook News in Europe.

lleol ar gyfer radio, teledu ac ar-lein, ac yn nodi sut gallem fynd ati i gynnal asesiadau cystadleuaeth yn y dyfodol yn y meysydd hyn (mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 3). Y diben yw rhoi mwy o eglurder i'r BBC a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut rydym yn debygol o fynd ati i ystyried newidiadau arfaethedig pellach gan y BBC i wasanaethau newyddion lleol.

## Newyddion lleol ar radio lleol

3.9 Gan ystyried gwrando yn unig ar y gorsafoedd hynny sy'n cael eu diffinio fel gorsafoedd 'masnachol lleol' a gorsafoedd gwledydd/lleol y BBC fel y'u mesurir gan RAJAR, mesurydd sefyllfa gyfredol y diwydiant, mae'r BBC yn cyfrif am tua 15% o'r gwrando ar radio lleol yn Ch2 2024.[6] Mae cynnwys ac arddull y BBC a radio masnachol/cymunedol lleol fel arfer yn wahanol. Er enghraifft, yn gyffredinol, mae gan radio lleol y BBC fwy o gynnwys llafar yn ystod oriau brig oherwydd rhwymedigaethau ei Drwydded Weithredu[7], ac roedd rhai cyfranogwyr yn ein hymchwil ansoddol yn credu'n gyffredinol ei fod yn fwy difrifol neu 'swyddogol' ei naws radio lleol masnachol, a oedd yn cael eu hystyried yn fwy ysgafn ac anffurfiol. Cynnwys newyddion a materion cyfoes lleol yn aml oedd y prif reswm dros ddewis pobl i wrando ar radio gwledydd/lleol y BBC. Fodd bynnag, roedd cynulleidfaoedd radio lleol masnachol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dewis y gorsafoedd hynny ar gyfer y gerddoriaeth.[8] Gan fod y rhesymau dros wrando ar orsafoedd radio masnachol a lleol y BBC yn eithaf gwahanol, rydym yn credu, ar y cyfan, eu bod yn annhebygol o fod yn amnewidynnau arbennig o agos.

3.10 Ar ben hynny, roedd ein hymchwil ansoddol yn awgrymu nad oedd galw sylweddol am fwletinau newyddion ychwanegol ar radio masnachol, gyda chyfranogwyr yn nodi bod amlder presennol bwletinau newyddion ar radio lleol masnachol yn iawn.

3.11 Yn gyffredinol, gan edrych ar draws y darlun cenedlaethol, rydym yn credu ei bod yn annhebygol y byddai cynyddu neu wella newyddion lleol ar orsafoedd gwledydd/lleol presennol y BBC yn cael effaith sylweddol ar orsafoedd radio masnachol/cymunedol lleol. Fodd bynnag, gall effaith unrhyw gynnydd neu welliant i newyddion lleol y BBC ar radio amrywio ar draws ardaloedd daearyddol ac efallai y bydd angen i'r BBC ystyried a fyddai'n gymesur ac yn fuddiol edrych ar effaith newidiadau sylweddol mewn lleoliadau daearyddol penodol ar gystadleuaeth.

3.12 Os yw'r BBC yn cynnig lleihau neu newid arddull ei newyddion lleol ar radio cenedlaethol/lleol yn sylweddol iawn, mae'r sefyllfa'n fwy cynnil. Os bydd y BBC yn gwneud newidiadau sy'n ei wneud yn fwy tebyg i orsafoedd masnachol lleol (er enghraifft, disodli newyddion lleol â cherddoriaeth neu adloniant), gallai hyn ddenu gwrandawyr o orsafoedd radio masnachol, yn enwedig gan ei bod yn bosibl y byddai'n well gan wrandawyr orsaf nad yw'n cynnwys hysbysebion. Efallai y bydd yr amgylchiadau hyn yn galw am archwiliad manylach o'r effeithiau ar gystadleuaeth, ond mae'n amlwg y byddai hyn yn dibynnu ar yr union newid a gynigir a'r cyd-destun perthnasol.

---

[6] RAJAR, Pob oedolyn 15 oed a hŷn. Roedd gorsafoedd radio lleol y BBC yn cyfrif am 4.3% o'r *holl* oriau gwrando ar radio yn Ch2 2024

[7] Er enghraifft, mae Trwydded Weithredu'r BBC yn ei gwneud yn ofynnol i bob gorsaf radio leol y BBC ar gyfer rhanbarthau Lloegr ddarlledu bwletinau newyddion a gwybodaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn rheolaidd drwy gydol y dydd, gan gynnwys swm sylweddol o newyddion a gwybodaeth berthnasol yn ystod oriau brig amser brecwast. Mae'r Oriau Gwylio Brig Amser Brecwast ar radio lleol yn Lloegr yn golygu rhwng 7:00 a 08:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

[8] Ymchwil defnyddwyr ansoddol cyfryngau lleol Ofcom 2024, t.26-28.

## Newyddion rhanbarthol ar deledu

3.13 Y BBC a Channel 3 yw prif ddarparwyr newyddion rhanbarthol ar y teledu. [9] Ar draws y DU, roedd y BBC yn cyfrif am 63% o wylio newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn 2023, o'i gymharu â 37% ar gyfer Channel 3. Canfu ein hymchwil ansoddol ymysg defnyddwyr fod bwletinau newyddion teledu gwledydd/rhanbarthau'r BBC yn cael eu hystyried ychydig yn wahanol i Channel 3. O ran naws, roedd cyfranogwyr yn tueddu i deimlo bod y BBC yn darparu gogwydd mwy difrifol ar straeon newyddion na rhaglenni cyfatebol Channel 3, a oedd yn aml yn cael eu hystyried yn taro nodyn mwy ysgafn.

3.14 Y tu hwnt i hyn, ni welodd cyfranogwyr fawr o wahaniaeth rhwng cynnwys bwletinau newyddion gwledydd/rhanbarthau'r BBC a Channel 3, ac eithrio nifer o bobl yn yr Alban a ddywedodd fod bwletinau newyddion STV yn teimlo'n fwy lleol na'r hyn sy'n cyfateb ar y BBC. O'i gymharu â'r sefyllfa ar gyfer radio lleol, rydym o'r farn bod mwy o botensial i wylio symud o Channel 3 i'r BBC os bydd y BBC yn cynyddu neu'n gwella ei raglenni newyddion rhanbarthol yn y dyfodol.

3.15 Mae'n anodd iawn i ni asesu i ba raddau mae unrhyw newidiadau arfaethedig i newyddion gwledydd y BBC neu newyddion rhanbarthol Lloegr yn cael effaith ar gystadleuaeth heb wybod beth allai'r rhain fod. Rydym o'r farn bod cyfran gymharol fach o refeniw cyffredinol Channel 3 yn debygol o ddeillio o newyddion rhanbarthol. Fodd bynnag, os bydd y BBC yn newid ei newyddion rhanbarthol a fydd yn arwain at ostyngiad mawr iawn yn lefelau gwylio newyddion rhanbarthol Channel 3, gallai hyn o bosibl effeithio ar gymhellion ITV/STV i fuddsoddi ac arloesi mewn perthynas â newyddion rhanbarthol yn benodol. Gall y rhain amrywio ar draws y gwahanol ddeiliaid trwydded ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau oherwydd gall yr effaith ar eu cynulleidfaoedd amrywio ar draws y DU. Byddai angen i ni ystyried yr effeithiau ar gynulleidfaoedd fel rhan o asesiad cystadleuaeth os cynigir newid sylweddol i newyddion teledu gwledydd/rhanbarthau'r BBC.

## Newyddion ar-lein lleol

3.16 Canfu ein harolwg cyfryngau lleol yn 2023 mai cyfryngau cymdeithasol, sy'n cynnwys amrywiaeth o ddarparwyr newyddion gan gynnwys y BBC, oedd y ffordd fwyaf poblogaidd i gynulleidfaoedd gael gafael ar eu newyddion a'u gwybodaeth leol ar-lein, ac fe'i defnyddiwyd gan 38% o oedolion yn ystod y mis diwethaf.[10] Dilynwyd hyn gan wefan neu ap y BBC (35%), gwefannau papurau newydd lleol neu ranbarthol (26%) a pheiriannau chwilio (26%).

3.17 Gan edrych ar wefannau newyddion lleol ar-lein yn benodol,[11] rydym wedi defnyddio data'r BBC ac Ipsos Iris i amcangyfrif cyfrannau ymweliadau â thudalennau (gweler A2.5-10 i gael

[9] Mae Trwydded Ranbarthol Channel 3 yn mynnu bod rhaglenni newyddion rhanbarthol yn cael eu darparu ar draws y gwledydd a rhanbarthau Lloegr. Mae trwyddedau newyddion gwledydd a rhanbarthau ITV yn cynnwys 18 o wasanaethau gwledydd, rhanbarthau ac is-ranbarthau ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, de'r Alban ac Ynysoedd y Sianel. STV yw deiliad trwydded Channel 3 yng Ngogledd a Chanolbarth yr Alban. Rydym yn defnyddio Sianel 3 i gyfeirio at ITV ac STV gyda'i gilydd.

[10] Mae'n debygol y bydd newyddion a gwybodaeth leol sy'n cael ei ddefnyddio 'ar gyfryngau cymdeithasol' yn cynnwys darpariaeth newyddion gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys darpariaeth o ffynonellau traddodiadol ar y llwyfannau hynny, fel Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBs) neu bapurau newydd lleol.

[11] Gan gynnwys ap BBC News.

rhagor o wybodaeth am y data sy'n cael eu defnyddio).[12] Ar sail y wybodaeth hon, cyfran y BBC o'r ymweliadau â thudalennau bob mis ar gyfartaledd yn ystod hanner cyntaf 2024 ar draws y DU oedd tua 37%. Mae llawer o amrywiaeth yng nghyfran y BBC o ymweliadau â thudalennau ar gyfartaledd ar draws ei ardaloedd mynegai lleol.[13] Ar gyfer rhai mynegeion lleol (Jersey, Guernsey, Ynys Manaw, Swydd Amwythig) roedd cyfran y BBC o ymweliadau â thudalennau bob mis ar gyfartaledd dros 90% yn ystod hanner cyntaf 2024. Mae pedair ardal mynegai leol hefyd lle roedd cyfran y BBC o ymweliadau â thudalennau ar gyfartaledd yn llai nag 20% - Tyne a Wear, Caint, Birmingham a'r Black Country a Glannau Mersi.

3.18 Ar gyfer ein hasesiad o effeithiau posibl newidiadau i ddarpariaeth newyddion lleol ar-lein y BBC ar gystadleuaeth (sy'n cynnwys y newyddion lleol sydd ar gael ar wefan BBC News a thrwy ap BBC News) rydym wedi canolbwyntio ein dadansoddiad ar safleoedd newyddion lleol ar-lein gan mai dyma'r cystadleuwyr agosaf i newyddion lleol ar-lein y BBC.

3.19 Ar gyfer newyddion lleol ar-lein, mae gennym enghraifft ddiweddar lle mae'r BBC wedi ehangu ei allbwn ac rydym wedi monitro effaith y newid hwn ar ddarparwyr masnachol newyddion lleol yn Atodiad 2. O edrych ar y darlun cyfan, nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth arwyddocaol bod newidiadau diweddar y BBC wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau cyhoeddwyr masnachol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai lefelau gwylio ychwanegol y BBC fod yn disodli lefelau gwylio masnachol i ryw raddau.

3.20 Yn ein hymchwil ansoddol ymysg defnyddwyr, cafodd cyfranogwyr wybodaeth am fuddsoddiad cynyddol y BBC mewn gwasanaethau newyddion lleol ar-lein yn Lloegr a gofynnwyd sut mae'r newidiadau wedi, neu sut gallai effeithio ar eu defnydd o newyddion a gwybodaeth leol.[14] Dywedodd y mwyafrif llethol o bobl nad oeddent wedi sylwi ar y newidiadau. Doedd neb yn honni eu bod wedi newid y ffordd maen nhw'n defnyddio cyfryngau lleol o ganlyniad. Gofynnwyd i bobl hefyd sut gallai'r newidiadau i wasanaethau lleol y BBC effeithio ar eu defnydd o gyfryngau lleol yn y dyfodol. Roeddent yn ei chael yn anodd rhagweld eu hymddygiad yn y dyfodol, yn rhannol oherwydd eu bod yn teimlo y byddai'n dibynnu ar sut roedd y newidiadau'n amlygu eu hunain o ran pa wahaniaeth y byddai'n ei wneud.

3.21 Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod gwahaniaethau rhwng newyddion y BBC ar-lein a ffynonellau newyddion lleol eraill. Roedd pobl yn hoffi bod y BBC yn darparu cynnwys heb waliau talu na hysbysebu, ac roeddent yn teimlo bod absenoldeb hysbysebu a ffenestri naid yn rhoi profiad mwy dymunol i ddefnyddwyr. Drwy gydol yr ymchwil, dywedodd pobl nad oeddent eisiau talu am newyddion a gwybodaeth leol. Roedd canfyddiad hefyd bod gan y BBC lai o straeon 'syfrdanol', a dywedodd pobl eu bod yn teimlo'n hyderus bod y wybodaeth a ddarparwyd yn fwy tebygol o gael ei gwirio o ran ffeithiau na rhai ffynonellau ar-lein eraill. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y gwasanaeth yn llai lleol na rhai ffynonellau eraill. Roedd rhai yn teimlo, pe bai'r BBC yn gallu darparu cynnwys digon lleol, gyda phrofiad gwell i ddefnyddwyr (er enghraifft, heb hysbysebion), y gallent ei ddewis yn hytrach na ffynonellau ar-lein eraill.

[12] Fel sy'n cael ei drafod yn A2.7, bydd Ipsos iris yn tanddatgan cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau masnachol gan nad yw'n cwmpasu llawer o safleoedd bach nad ydynt wedi cael eu gweld gan aelodau panel Ipsos. Mae hyn yn golygu bod cyfran y BBC o gyfanswm yr ymweliadau â thudalennau newyddion lleol yn debygol o gael ei gorddatgan.

[13] Er cysondeb, cafodd y pedwar mynegai newydd a gafodd eu creu gan y BBC eu cynnwys yn mynegai'r hafan lle'r oeddent yn cael eu cynnwys o'r blaen. Gweler paragraff A2.34.

[14] Ymchwil defnyddwyr ansoddol cyfryngau lleol Ofcom 2024, t.42-45.

3.22 Roedd gan randdeiliaid safbwyntiau gwahanol ynghylch maint y gystadleuaeth rhwng BBC a safleoedd newyddion ar-lein lleol masnachol. Dywedodd gwefannau hyperleol (y rheini sy'n canolbwyntio ar ardal ddaearyddol neu gymuned gymharol fach) wrthym eu bod yn tueddu i beidio â gweld y BBC fel cystadleuydd cryf. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gyhoeddwyr newyddion rhanbarthol (y mae eu cyhoeddiadau'n tueddu i gynnwys trefi a dinasoedd neu ardaloedd daearyddol mwy o'i gymharu â'r hyperleol) yn gweld newyddion ar-lein lleol y BBC fel cystadleuydd agos. Ym mis Rhagfyr 2023, gwnaeth uwch olygyddion nifer o gyhoeddwyr newyddion rhanbarthol mawr (Iliffe Media, Newsquest, Reach Regionals, National World a Midland News Association) ddatganiad cyhoeddus ar y cyd yn disgrifio'r BBC fel 'cymydog o uffern'. Roeddent yn dadlau bod buddsoddiad y BBC mewn newyddion ar-lein lleol yn peryglu swyddi mewn cystadleuwyr newyddion ar-lein masnachol. Roeddent yn dadlau bod gan y BBC fantais gystadleuol oherwydd ei fod yn cael ei ariannu'n gyhoeddus ac nid yw'n hysbysebu, felly mae ei straeon yn tueddu i gael eu blaenoriaethu gan beiriannau chwilio. Ar ben hynny, roeddent yn nodi y gall y BBC ddefnyddio ei frand i hyrwyddo cynnwys.

3.23 Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau bod cysylltiad achosol rhwng mwy o allbwn ar-lein lleol y BBC a'r gostyngiad yn y nifer yr ymweliadau â thudalennau masnachol, a bod hyn yn cael effaith ariannol. Rydym yn cytuno bod ymweliadau â thudalennau ac allbwn y BBC wedi cynyddu, a bod ymweliadau â thudalennau masnachol wedi gostwng. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn Atodiad 2, nid yw ein dadansoddiad wedi dod o hyd i dystiolaeth sylweddol bod cysylltiad achosol rhwng y ddau. Mae'n ymddangos bod y gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau masnachol yn rhan o duedd tymor hwy a oedd yn bodoli cyn newidiadau'r BBC, er ein bod yn cydnabod y gallai newidiadau'r BBC fod yn cyfrannu i ryw raddau.

3.24 Rydym yn cydnabod bod mwy o newyddion lleol ar-lein y BBC yn rhan o'r heriau sy'n wynebu cyhoeddwyr lleol ac efallai y bydd rhai ardaloedd lleol lle mae lefelau gwylio'r BBC yn disodli lefelau gwylio masnachol. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd newidiadau'r BBC yn y dyfodol yn cael effaith wahanol ar gyhoeddwyr masnachol. Er enghraifft, roedd ein hymchwil ansoddol yn nodi petai'r BBC yn darparu cynnwys ar-lein mwy lleol y gallai pobl ei ddewis ar draul ffynonellau ar-lein eraill, sy'n awgrymu mwy o botensial ar gyfer amnewid. Felly, efallai y bydd angen i'r BBC ac Ofcom ystyried rhai newidiadau i'r BBC yn y dyfodol ymhellach.[15]

[15] I ddechrau, mae'n rhaid i'r BBC asesu a allai newid i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol (a fyddai'n "sylweddol"). Dim ond ar gyfer newidiadau sylweddol y mae'n rhaid i Ofcom gynnal asesiad cystadleuaeth.

# 4. Y dirwedd newyddion lleol

4.1 Rydyn ni i gyd yn amgyffred ac yn disgrifio newyddion lleol mewn ffordd wahanol, yn dibynnu ar ein cefndir, ein diddordebau personol a lle rydyn ni'n byw. Mae Ofcom hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddisgrifiadau gwahanol i siarad am newyddion ar draws ein cylch gwaith rheoleiddio, yn enwedig mewn meysydd lle mae gennym bwerau i osod gofynion, fel rheoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'r BBC. Rydyn ni'n aml yn sôn am "newyddion o ansawdd uchel" sy'n ddibynadwy, yn gywir ac yn ddiduedd. Yn achos cyfryngau lleol, credwn ei bod yn ddefnyddiol tynnu sylw at is-set o'r math hwn o newyddion, y cyfeirir ato'n aml yn y maes newyddion lleol fel "newyddiaduriaeth er budd y cyhoedd". Er bod yr union ddiffiniad o "newyddiaduraeth er budd y cyhoedd" yn amrywio, rydym wedi nodi nifer o themâu cyffredin. Gall gefnogi democratiaeth leol a dwyn gwleidyddion, cynghorau, sefydliadau a busnesau lleol i gyfrif am eu penderfyniadau a'u polisïau. Gall hefyd helpu i hyrwyddo cydlyniant cymunedol, rhoi llais i bobl leol a thynnu sylw at faterion sydd o bwys i'r cyhoedd.

4.2 Mae gan newyddion lleol rôl werthfawr i'w chwarae o hyd yng nghymdeithas y DU. Gan fod mwy o berygl o ran camwybodaeth a thwyllwybodaeth i gynulleidfaoedd, a safbwyntiau mewn cymdeithas, ar-lein ac all-lein, yn cael eu polareiddio fwyfwy, mae'r angen am ffynonellau newyddion lleol dibynadwy a chywir sydd ar gael yn eang, a chynulleidfaoedd sy'n ymgysylltu ag ef, yn bwysicach nag erioed. Ar ben hynny, efallai y bydd rôl darparwyr newyddion lleol yn dod yn fwyfwy pwysig yn Lloegr hefyd wrth i fwy o bŵer gael ei ddatganoli o San Steffan i'r rhanbarthau.

4.3 Fodd bynnag, gall casglu newyddion yn broffesiynol i gynhyrchu straeon newyddion dibynadwy a chywir ac ymchwiliadau i faterion sy'n ymwneud â budd y cyhoedd yn lleol fod yn gostus a chymryd llawer o amser. Mae llawer o ddarparwyr newyddion lleol, yn enwedig mewn print, yn wynebu amrywiaeth o heriau o ran denu cynulleidfaoedd a chynhyrchu refeniw, ac mae hyn yn bygwth gallu'r sector i barhau i ddarparu lluosogrwydd newyddion er budd y cyhoedd yn lleol ledled y DU.

4.4 Fel y nodir yn ein hadroddiad interim, mae'r dirwedd newyddion lleol a sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion lleol yn parhau i esblygu. Er bod awydd ymysg cynulleidfaoedd y DU o hyd am newyddion lleol ar draws amrywiaeth o ffynonellau, mae llawer mwy o bobl nawr yn dod o hyd i'w newyddion ar-lein gyda 65% o oedolion y DU yn defnyddio eu ffôn symudol ar gyfer newyddion yn 2024, sy'n gynnydd o 29% yn 2013.[16]

4.5 Dangosodd arolwg cyfryngau lleol Ofcom yn 2023, o'r 92% o oedolion y Deyrnas Unedig sydd yn defnyddio newyddion neu wybodaeth leol, mae 89% o'r grŵp hwn bellach yn cael gafael ar beth o'r cynnwys hwn ar-lein, gan gynnwys dros hanner drwy gyfryngau cymdeithasol (54%).[17] Canfu'r ymchwil hwn hefyd bod 53% o oedolion sy'n defnyddio cyfryngau lleol yn gwylio bwletinau newyddion teledu'r gwledydd neu'r rhanbarthau, mae 34% yn gwrando ar radio lleol a 22% yn darllen fersiynau print o bapurau newydd lleol. Mae hyn yn cyd-fynd ag

---

[16] Reuters Institute Digital News Report 2024, p.65.

[17] Ar gyfer newyddion yn ehangach, canfu ein Harolwg Defnyddio Newyddion yn 2024 hefyd fod mwy o bobl nag erioed yn cael gafael ar newyddion ar-lein. Mae pedwar o bob deg (40%) oedolyn yn y DU yn honni eu bod yn defnyddio newyddion drwy lwyfannau Meta (Facebook, WhatsApp, Instagram ac Threads), 19% drwy YouTube a 14% drwy Google Search (mae hyn yn cynnwys cael newyddion ar y llwyfannau hyn, yn ogystal â gyrru traffig i wefannau newyddion traddodiadol).

arferion defnyddio newyddion yn fwy cyffredinol.[18] Fodd bynnag, er bod argaeledd ac awydd o hyd am y ffynonellau newyddion lleol hyn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dal i gael eu defnyddio'n dda gan rai cynulleidfaoedd, mae'r defnydd wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf:

a) Ynghyd â'r defnydd o deledu yn fwy cyffredinol, mae cyrhaeddiad wythnosol bwletinau newyddion teledu'r gwledydd a'r rhanbarthau wedi gostwng (o 52% yn 2018 i 40% yn 2023), ar gyfradd dirywiad tebyg i'r hyn a welwyd yn achos newyddion cenedlaethol/rhyngwladol (69% yn 2018, 55% yn 2023).[19]
b) Yn y sector print, mae cyfran yr oedolion sy'n defnyddio papurau newydd print lleol a rhanbarthol wedi mwy na haneru rhwng 2018 a 2024.[20] Mae'n debygol bod pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r heriau sydd eisoes yn wynebu'r diwydiant papurau newydd – yn y pum mlynedd hyd at 2023, roedd cylchrediad teitlau wythnosol a dyddiol rhanbarthol wedi gostwng 19% a 15% bob blwyddyn yn y drefn honno.
c) Er gwaethaf y gostyngiad mewn cylchrediad papurau newydd lleol mewn print, mae darparwyr yn dal i gyrraedd nifer sylweddol o oedolion drwy eu presenoldeb ar-lein. Ym mis Ebrill 2024, roedd 58% o oedolion ar-lein 15 oed a hŷn wedi ymweld â theitlau rhanbarthol Reach plc, roedd 28% wedi ymweld â theitlau Newsquest ac roedd 27% wedi ymweld â theitlau National World.[21] Mae cyrhaeddiad papurau newydd neu gylchgronau newyddion rhanbarthol a lleol ar-lein wedi bod yn gyson dros y chwe blynedd diwethaf.[22]
d) Yn fwy cyffredinol, o 2022 i fis Mawrth 2023, nifer y gynulleidfa fisol ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU i wefannau neu apiau newyddion lleol masnachol oedd tua 36.7 miliwn ar gyfartaledd, ond ers mis Mawrth 2023 bu gostyngiad graddol mewn cyrhaeddiad.[23]
e) Mae'r nifer sy'n gwrando ar radio lleol wedi aros yn fwy sefydlog, gyda chyrhaeddiad radio masnachol lleol yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf (49%), ac mae gorsafoedd gwledydd/rhanbarthau'r BBC wedi gweld gostyngiad bach (15% yn Ch4 2018, 12% yn Ch2 2024).[24]

4.6 Serch hynny, canfu ein hymchwil ansoddol bod cyfranogwyr yn fwy tebygol o ymddiried mewn ffynonellau newyddion traddodiadol, fel bwletinau teledu rhanbarthol a gorsafoedd radio lleol, i ddarparu newyddion a gwybodaeth gywir, o'i gymharu â newyddion o gyfryngau cymdeithasol, gan adleisio canfyddiadau ar y lefelau is o ymddiriedaeth a geir mewn newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol. Roedd cyfranogwyr hefyd yn tueddu i ymddiried mewn fersiynau print o bapurau newydd yn hytrach na'u fersiynau ar-lein.

---

[18] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.
[19] Barb, oedolion 16 oed a hŷn, pob darllediad, 28 diwrnod wedi ei gyfuno, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 3 munud a mwy %, Genre: newyddion y gwledydd/rhanbarthau; newyddion y Deyrnas Unedig/rhyngwladol.
[20] Ofcom News Consumption Survey 2018 to 2024.
[21] Ipsos Iris, cyrhaeddiad cynulleidfa 15+ ar-lein. Nid yw Reach plc yn cynnwys papurau newydd cenedlaethol (Express, Star) ond mae'n cynnwys, er enghraifft, y Liverpool Echo a'r Daily Record. Nid yw Newsquest yn cynnwys New European, Exchange a Mart ond mae'n cynnwys, er enghraifft, y Northern Echo a Gwasg Efrog. Mae National World (JPI media, gynt) yn eithrio teitlau cenedlaethol (Farming Life, 3 Added Minutes) ond mae'n cynnwys, er enghraifft, Lancashire Post, Glasgow World.
[22] Ofcom News Consumption Survey 2018 to 2024.
[23] Ipsos Iris, cyrhaeddiad cynulleidfa 15+ ar-lein.
[24] RAJAR, Pob oedolyn 15 oed a hŷn. Gohiriwyd y gwaith maes o ddiwedd Ch1 2020 tan Ch3 2021 oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19. Arweiniodd hyn at newidiadau dilynol mewn methodoleg, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu â chwarteri blaenorol.

4.7 Mae'n ymddangos bod cael pobl i ymgysylltu â newyddion a gwerthfawrogi ei werth, iddyn nhw fel unigolion ac i gymdeithas yn ehangach, hefyd yn her gynyddol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan lai o unigolion yn y DU ddiddordeb mawr neu eithriadol mewn newyddion yn gyffredinol (38% yn 2024, i lawr o 70% yn 2015), tra bod cyfran sylweddol o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan swm y newyddion (38%) a bron i hanner (46%) yn osgoi'r newyddion weithiau neu'n aml.[25] Mae parodrwydd arbennig o isel hefyd i dalu am newyddion ar-lein ymysg pobl yn y DU (mae 8% o oedolion yn talu am newyddion ar-lein, o'i gymharu â 17% ar gyfartaledd ar draws yr 20 marchnad a arolygwyd). Pwysleisiwyd hyn hefyd gan gyfranogwyr yn ein hymchwil ansoddol ymysg defnyddwyr.[26]

4.8 Mae darparwyr newyddion, gan gynnwys yn y sector lleol, hefyd yn wynebu cystadleuaeth na welwyd ei thebyg o'r blaen am sylw cynulleidfaoedd – o ffynonellau newyddion ar-lein eraill ac o gynnwys ar-lein yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn ei gwneud yn fwyfwy heriol i ffynonellau newyddion dibynadwy dorri drwodd i gynulleidfaoedd, sy'n destun pryder o ystyried yr achosion cynyddol o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

4.9 Mae'r newidiadau hyn yn ymddygiad cynulleidfaoedd wedi effeithio ar sut mae newyddion yn cael ei ariannu a'i gyflenwi gan gyhoeddwyr, a sut mae cynulleidfaoedd yn ei ddefnyddio ac yn ymddiried ynddo. Wrth i gynulleidfaoedd symud ar-lein, mae darparwyr newyddion yn gorfod dod o hyd i ffyrdd newydd o ddenu cynulleidfaoedd i'w llwyfannau traddodiadol ac i'w darpariaeth newyddion ar-lein a gwneud arian.

4.10 Yn hollbwysig, er gwaethaf y newid tuag at gael gafael ar newyddion ar-lein, nid yw'r gostyngiad mewn hysbysebion print a theledu wedi cael ei wrthbwyso gan refeniw hysbysebu digidol ar gyfer darparwyr traddodiadol.

4.11 Ar ben hynny, mae cyfryngwyr ar-lein bellach yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y gadwyn gwerth newyddion, gan gynnwys curadu, darganfod a monitro newyddion, drwy bennu safleoedd chwilio a'r cynnwys newyddion a gynigir i gynulleidfaoedd gan algorithmau argymell, yn ogystal â thrwy gymryd canran o refeniw hysbysebu digidol.  Gall y cyfryngu hwn arwain at berthynas wannach rhwng cyhoeddwyr a'u cynulleidfaoedd, ac mae pryderon y gallai cymwysiadau deallusrwydd artiffisial a ddefnyddir gan gyfryngwyr ar-lein ymwreiddio'r problemau hyn ymhellach os nad yw cyhoeddwyr newyddion yn cael eu talu'n deg neu eu priodoli am ddefnyddio'u cynnwys.[27] Fel y nodwyd yn ein hadroddiad interim, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod atgyfeiriadau gan Facebook at gyhoeddwyr newyddion wedi gostwng dros amser, a bod y ffaith bod Meta wedi cael gwared ar y tab newyddion ar Facebook a'r newidiadau a wnaed i newyddion ar X (a elwid gynt yn Twitter) wedi cyfrannu at amgylchedd mwy heriol i sefydliadau newyddion lleol, y mae llawer ohonynt yn dibynnu fwyfwy ar geisio harneisio cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfaoedd a chynhyrchu refeniw.

4.12 Mae rhai darparwyr newyddion lleol yn troi at AI am gyfleoedd newydd, er enghraifft i gefnogi'r gwaith o greu cynnwys ar draws gwahanol lwyfannau cyfryngau a rhyddhau newyddiadurwyr i ymgymryd â mwy o newyddiaduraeth 'llawr gwlad'. Fodd bynnag, mae yna bryderon hefyd am ei rôl mewn newyddion, gan gynnwys risgiau i swyddi, ansawdd

[25] Daw ffigur y DU o dablau data Reuters Institute Digital News Report 2024 UK.
[26] Reuters Institute Digital News Report 2024, t.49 ac ymchwil defnyddwyr ansoddol cyfryngau lleol Ofcom 2024, t.41.
[27] Tynnwyd sylw at hyn gan randdeiliaid ar gyfer ein Hadolygiad PSM sydd ar y gweill, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod gaeaf 2024/25.

cynnwys a'r potensial i AI hwyluso'r gwaith o greu a dosbarthu cynnwys 'ffug', gan gynyddu'r risg o amlygu pobl i gamwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol ar-lein.[28]

4.13 O ganlyniad i'r heriau sy'n wynebu'r sector, mae rhai darparwyr newyddion lleol wedi mynd allan o fusnes, ac mae eraill wedi cael eu prynu gan grwpiau newyddion mwy wrth i'r sector gyfuno. Mae rhai hefyd wedi ceisio lleihau costau ac adnoddau, er enghraifft drwy wasanaethu ardal ddaearyddol ehangach, drwy dorri swyddi neu'r ddau. Mae gan y newidiadau hyn y potensial i wanhau perthnasedd lleol cynnwys, ac ansawdd cynnwys.

4.14 Mae amrywiaeth o ddarparwyr bach neu gymunedol newydd sy'n awyddus i lenwi bylchau yn y farchnad wedi cynyddu, ond maent hefyd yn aml yn ei chael hi'n anodd ffynnu.

4.15 Ar ben hynny, rydym wedi clywed gan randdeiliaid am yr anhawster o ddod o hyd i newyddiadurwyr medrus a'u cadw, gyda rhai'n awgrymu bod llai o ddiddordeb mewn newyddiaduraeth fel gyrfa a bod llai o bobl yn ymuno â'r gronfa o dalent. Yn ôl pob sôn, mae cyhoeddwyr wedi torri tua 1,600 o swyddi newyddiaduraeth yn y DU yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar draws amrywiaeth o gyhoeddiadau, yn lleol ac yn genedlaethol.[29] O ystyried hyn, nid yw'n syndod bod tystiolaeth hefyd ei bod wedi dod yn fwy heriol i ddarpar newyddiadurwyr ddod o hyd i gyfleoedd interniaeth.[30] Efallai fod y gostyngiad yn nifer yr allfeydd lleol lle'r oedd llawer o newyddiadurwyr yn hyfforddi ac yn dechrau eu gyrfaoedd wedi gwaethygu'r anhawster hwn. Mae newyddiadurwyr eu hunain hefyd wedi codi materion ynghylch newyddiaduraeth fel gyrfa, gan gynnwys amodau gwaith cynyddol heriol a chyffredinrwydd aflonyddu, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol.[31]

4.16 Er gwaethaf yr heriau hyn, mae rhai datblygiadau cadarnhaol wedi bod hefyd. Mae tystiolaeth bod rhai teitlau'n dechrau cael mwy o lwyddiant wrth ddenu tanysgrifwyr digidol sy'n talu. Er enghraifft, cyhoeddodd Newsquest yn ddiweddar ei fod wedi cyrraedd 100,000 o danysgrifwyr digidol a oedd yn talu, gan ddod â dros £500,000 y mis i mewn, a dywedodd, er nad dyma ei brif ffrwd refeniw, ei fod yn rhan bwysig o'r gymysgedd. Hefyd, fe adroddodd DC Thomson bod cynnydd blynyddol o bron i 50% yn 2022/23 mewn refeniw tanysgrifiadau digidol (er mai dim ond 4% o'r holl refeniw cylchrediad yw'r rhain o hyd). Yn y sector annibynnol, mae Mill Media, a lansiodd y Manchester Mill yn 2020, wedi ehangu i ychwanegu teitlau yn Sheffield, Lerpwl a Birmingham, yn ogystal â lansio teitlau yn Glasgow a Llundain yn ddiweddar.

4.17 Fe wnaethom hefyd nodi yn ein hadroddiad interim bod nifer o 'egin' ddarparwyr entrepreneuraidd hefyd wedi ymddangos yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel arfer maent yn allfeydd annibynnol sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu newyddion er budd y cyhoedd i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae llawer o'r allfeydd hyn wedi mabwysiadu dulliau arloesol o ddenu cynulleidfaoedd a chynhyrchu refeniw, er enghraifft mae gan Bristol Cable fodel aelodaeth ac mae'n eiddo i bobl leol, gyda chyfraniadau

---

[28] Ofcom, 15 Medi 2023. Cyflwyno Tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin i lywodraethu deallusrwydd artiffisial; a Hsu a Thompson, The New York Times, 2023, Disinformation Researchers Raise Alarms About A.I. Chatbots.

[29] Press Gazette, 30 Hydref 2024. News media job cuts 2024 tracked: BBC and ABC News among latest hits. Amcangyfrifon yn seiliedig ar yr adroddiad hwn: colli 409 o swyddi yn y DU yn 2024 ac o leiaf 1198 o swyddi yn y DU yn 2023 yn y proffesiwn newyddiaduraeth.

[30] Canfu adroddiad y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ) Journalists at Work fod y rhan fwyaf (73%) o newyddiadurwyr a oedd wedi gwneud interniaeth yn ystod y tair blynedd diwethaf heb gael eu talu

[31] Canfu adroddiad NCTJ fod dros hanner (51%) y newyddiadurwyr wedi profi cam-drin, aflonyddu neu drais yn eu gwaith, er bod adroddiad arall ar gyfer DCMS wedi canfod ffigur uwch (76%).

aelodaeth yn cyfrif am 35% o'i gyllid.[32] Mae rhai darparwyr hefyd yn defnyddio llwyfannau a fformatau newydd i gyrraedd cynulleidfaoedd, fel cyhoeddiadau sy'n seiliedig ar Substack fel y cylchlythyr 'London Centric' a lansiwyd yn ddiweddar. Mae llawer o deitlau bach neu gymunedol eraill hefyd yn darparu newyddion lleol mewn llawer o wahanol rannau o'r DU, sy'n aml yn cael eu gyrru gan un person angerddol neu dîm bach yn y canol gyda chysylltiadau dwfn â'r ardal leol maen nhw'n ei gwasanaethu. Serch hynny, mae'r 'egin' ddarparwyr hyn yn agored iawn i'r heriau cynaliadwyedd sy'n wynebu'r sector, ac yn gyffredinol mae angen iddynt geisio cyllid o amrywiaeth o ffynonellau ac maent yn aml yn dibynnu ar staff llawrydd, rhan-amser, neu wirfoddol.

## Beth nesaf?

4.18 I gydnabod yr amrywiaeth o heriau sy'n wynebu'r sector, a'r risgiau o ran darparu defnyddio newyddion lleol dibynadwy yn y dyfodol, mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan edrych ar y materion a sut gellid cefnogi'r sector cyfryngau lleol. Mae hyn yn cynnwys Adolygiad Cairncross (2019), ymchwiliad Pwyllgor yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol (2023), ac adroddiadau gan y Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd yn yr Alban yn Yr Alban (2022), a Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru (2023). Hyd yma, ychydig sydd wedi gweithredu ar yr argymhellion. Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn nodi unrhyw ganfyddiadau perthnasol o ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi i ddyfodol newyddion, a gafodd ei gyhoeddi yr wythnos hon. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau'n ddiweddar i ddatblygu strategaeth cyfryngau lleol.

4.19 Mae rhywfaint o gymorth ar raddfa fawr eisoes ar gael gan gynlluniau fel Partneriaeth Newyddion Lleol y BBC (gan gynnwys y Cynllun Gohebu Democratiaeth Leol), a gan raglenni fel y Google News Initiative. Mae rhywfaint o ryddhad ardrethi ar gael ar hyn o bryd hefyd, fel rhyddhad i bapurau newydd lleol ar gyfer cyhoeddwyr print.[33] Mae mentrau eraill y diwydiant yn cynnwys Cynlluniau Newyddion Lleol y Sefydliad Newyddion er Budd y Cyhoedd (PINF) yn ogystal â'i Wobrau i Newyddiadurwyr Dygn.

4.20 Mae rhai cronfeydd arloesi newyddion untro hefyd wedi bod ar gael yn y gorffennol, fel Cronfa Beilot Newyddion y Dyfodol a weinyddir gan Nesta yn 2019/20, a chronfeydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi newyddiaduraeth leol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys Cronfa Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru gwerth £100,000 yn 2022, a oedd yn cefnogi sefydliadau a oedd wedi ymrwymo i ddarparu newyddion sy'n berthnasol i'r cyhoedd yn lleol a hyrwyddo twf mewn newyddion cymunedol yng Nghymru, a Chyflymydd Newyddion Budd Cyhoeddus Cymru yn 2023, a oedd yn darparu £200,000 arall i gefnogi sefydliadau newyddion lleol, a weinyddir gan Ping! News CIC ac Omni Digital.

4.21 Hefyd dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn obeithiol y bydd y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 (DMCC) yn cymryd rhai camau i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn pŵer bargeinio sy'n bodoli wrth ddelio â llwyfannau digidol mawr fel Google a Facebook ac y bydd yn darparu mwy o eglurder gyda thraffig cyfeirio.

[32] Dywed The Bristol Cable fod gweddill ei gyllid yn dod o grantiau (60%) a hysbysebu moesegol anghorfforaethol (5%).

[33] Mae rhyddhad i bapurau newydd lleol yn darparu gostyngiad o £1,500 mewn ardrethi busnes y flwyddyn ar gyfer eiddo cymwys tan 31 Mawrth 2025.

4.22 Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr ysgogiadau a'r ymyriadau y mae llawer o ddarparwyr newyddion lleol yn dibynnu arnynt ar hyn o bryd yn aml yn gyfyngedig o ran hyd a chwmpas, a gall fod yna ddiffyg cyd-drefnu ehangach. Mae rhanddeiliaid yn honni bod y cymorth sydd ar gael yn gallu bod yn agored i newid ac yn aml yn brin o gyllid a sicrwydd tymor hir. Ar adegau, efallai nad oes gan y gefnogaeth sydd ar gael y pwrpas sylfaenol i gefnogi cyfryngau lleol. Ar ben hynny, mewn rhai achosion, efallai mai dim ond i rai rhannau o'r sector y bydd cymorth ar gael, er enghraifft, dim ond i bapurau newydd lleol sydd wedi'u hargraffu y mae'r rhyddhad uchod yn berthnasol (mae cylchgronau a phapurau newydd ar-lein nad ydynt yn cael eu hargraffu yn anghymwys).

4.23 At hynny, mae'r dystiolaeth o gymorth dyngarol yn gyfyngedig yn y DU ac yn aml nid yw wedi'i warantu yn y tymor hir, fel y dangoswyd wrth i Meta dynnu allan o'r Prosiect Newyddion Cymunedol. Ar ben hynny, mae ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n canolbwyntio ar newyddion yn y DU yn tueddu i gael eu darparu gan sefydliadau trydydd sector lle mae cyllid, unwaith eto, yn gyfyngedig a heb unrhyw warantau tymor hir.

4.24 Bydd yn niweidiol i gynulleidfaoedd, fel defnyddwyr a dinasyddion, os nad oes amrywiaeth o newyddion lleol dibynadwy ar gael ar ba lwyfannau bynnag y mae pobl yn chwilio amdano, o ystyried y gwerth y gall ei ddarparu i bobl leol a'i rôl bwysig mewn cymdeithas yn ehangach. O ystyried yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu a'r ymyriadau sydd ar gael ar hyn o bryd, mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, yn ogystal â'n dadansoddiad o'r farchnad a chanfyddiadau'r adolygiad blaenorol, yn awgrymu bod mwy y gellid ei wneud i helpu i gefnogi darpariaeth newyddion lleol y gellir ymddiried ynddi yn y DU, er mwyn darparu manteision sector cyfryngau lleol mwy sefydlog i gynulleidfaoedd, cymdeithas a'r economi.

4.25 Mae'r adroddiad hwn yn casglu safbwyntiau ar nifer o syniadau a allai helpu i gefnogi'r sector newyddion lleol yn y DU. Mae'r opsiynau hyn yn canolbwyntio ar bedwar maes her allweddol i'r sector sy'n debygol o fod yn ystyriaethau canolog wrth asesu opsiynau posibl ar gyfer cymorth:

a) **Sicrhau bod newyddion lleol ar gael yn eang:** Er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd, mae angen i amrywiaeth o newyddion lleol fod ar gael yn rhwydd lle mae pobl eisiau dod o hyd iddo, boed hynny ar-lein neu drwy ddulliau mwy traddodiadol. Fodd bynnag, er bod newyddion lleol, ac yn enwedig newyddion lleol er budd y cyhoedd, yn darparu gwerth i unigolion ac i gymdeithas, mae cynhyrchu symiau mawr ohono yn aml yn ddrud ac efallai na fydd bob amser yn fasnachol hyfyw i rai darparwyr. Mae lefelau presennol y ddarpariaeth ar draws y DU yn amrywio'n sylweddol. Mae gan y BBC rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled y DU yn gallu parhau i gael gafael ar newyddion lleol a rhanbarthol diduedd o ansawdd uchel ar draws ei wasanaethau, gan gyfrannu at luosogrwydd y sector newyddion lleol ochr yn ochr â darlledwyr teledu a radio masnachol, y wasg argraffu ac ar-lein, a darparwyr cymunedol. Ar ben hynny, er mwyn i gynnwys newyddion lleol fod ar gael, mae angen cyflenwad cyson o newyddiadurwyr medrus, wedi'u cefnogi gan hyfforddiant priodol, sy'n ymuno â'r diwydiant.

b) **Cyfleu pwysigrwydd newyddion lleol i bobl leol yn llwyddiannus:** Er mwyn i ddarparwyr ffynonellau dibynadwy o newyddion lleol gael y cyfle i sicrhau sylw pobl ac adeiladu cynulleidfa, mae angen i gymunedau lleol allu deall a gwerthfawrogi ei werth. Mae angen i bobl hefyd fod yn hyderus eu bod yn gallu adnabod newyddiaduraeth leol ddibynadwy, sydd wedi'i chynhyrchu'n broffesiynol ac sy'n wahanol i fathau eraill o gynnwys, gan bwysleisio pwysigrwydd datblygu mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU i helpu i gefnogi'r ecoleg newyddion lleol.

c) **Darparu mynediad hawdd at newyddion lleol dibynadwy ar-lein:** Mae darparwyr newyddion nawr yn wynebu cystadleuaeth na welwyd ei thebyg o'r blaen am sylw cynulleidfaoedd, gyda'r amrywiaeth eang o gynnwys sydd ar gael ar-lein, o ffynonellau newyddion eraill a thu hwnt. Mae cyfryngwyr ar-lein hefyd wedi datblygu rôl gynyddol bwysig yn y gadwyn gwerth newyddion, gan gynnwys curadu, darganfod a gwneud arian o newyddion, a dylanwadu ar yr allbwn newyddion y mae cynulleidfaoedd yn ei weld. Felly, mae'n bwysig bod cynulleidfaoedd yn gwybod ble maen nhw'n gallu dod o hyd i newyddion lleol dibynadwy ar-lein a'u bod yn gallu cael gafael arno'n hawdd. Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 5, bydd ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM) yn ystyried sut gall Ofcom gefnogi gallu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i newyddion o ansawdd uchel, gan gynnwys adroddiadau lleol, o ystyried rôl gynyddol cyfryngwyr ac algorithmau ar-lein.

d) **Sicrhau ymgysylltiad â'r gynulleidfa:** Hyd yn oed pan fydd newyddion lleol dibynadwy ar gael, yn hygyrch ac yn cael ei werthfawrogi, mae angen i ddarparwyr ystyried sut maen nhw'n sicrhau bod cynulleidfaoedd eisiau ymgysylltu â'u hallbwn, o ystyried y gystadleuaeth o amrywiaeth eang o gynnwys arall ac yng ngoleuni mwy a mwy o ymddieithrio ac osgoi newyddion.

4.26 Yng ngweddill yr adroddiad hwn, rydym yn nodi'n gyntaf sut bydd Ofcom yn parhau i ystyried darparu newyddion lleol yn ei waith. Yna, rydym yn crynhoi safbwyntiau rhanddeiliaid ar amrywiaeth o awgrymiadau y gallai'r sector a'r Llywodraeth eu hystyried i helpu i gefnogi cynaliadwyedd newyddion lleol yn y DU yn y dyfodol, gan ystyried y pedwar maes a nodir uchod.

# 5. Cefnogi newyddion lleol drwy reoleiddio

5.1 Mae'r adran hon yn adeiladu ar y themâu a nodwyd yn ein hadroddiad interim. Mae'n tynnu sylw at sut bydd ein gwaith parhaus yn parhau i ystyried ecoleg cyfryngau lleol y DU, er mwyn i gynulleidfaoedd allu parhau i ddod o hyd i newyddion lleol dibynadwy a chywir pan fydd hynny'n gyfleus iddyn nhw. Mae hyn yn cynnwys sut gallwn gefnogi dyfodol newyddion lleol drwy ein dyletswyddau cyfryngau penodol ac mewn perthynas â'n rhwymedigaeth ehangach i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

## Cefnogi newyddion lleol drwy waith parhaus Ofcom

5.2 Fel y nodir yn Adran 2, mae gan Ofcom amrywiaeth o ddyletswyddau sy'n berthnasol i rannau o'r sector cyfryngau lleol rydym yn eu darparu drwy amrywiaeth eang o raglenni gwaith gwahanol. Gan fod llawer o'r tueddiadau a'r heriau sy'n effeithio ar y sector newyddion lleol hefyd yn berthnasol i'r dirwedd newyddion ehangach, byddwn yn parhau i ystyried y rhain, ac argymhellion perthnasol o adroddiad ar newyddion y dyfodol Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi, pan fyddwn yn cyflawni ein dyletswyddau sy'n ymwneud a newyddion y tu hwnt i'r Adolygiad o Gyfryngau Lleol hwn.

### Rheoleiddio'r BBC

5.3 Mae'r BBC wedi'i ddylunio i chwarae rhan unigryw o ran darparu newyddion diduedd, cywir a dibynadwy (gan gynnwys newyddion lleol a rhanbarthol), i bobl ledled y DU ar ei holl lwyfannau, fel rhan o'i rwymedigaethau i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa. Mae'n cyfrannu at luosogrwydd y dirwedd newyddion ehangach, gan gynnwys ar lefel leol a rhanbarthol. Fodd bynnag, gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, gallai rhai newidiadau y mae'n dymuno eu gwneud effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth yn y sector newyddion lleol ehangach (yn cynnwys y posibilrwydd o niweidio lluosogrwydd yn anfwriadol). Felly, mae angen cydbwysedd rhwng caniatáu i'r BBC wneud y newidiadau angenrheidiol i'w wasanaethau er mwyn cyflawni ei Genhadaeth i weithredu er budd y cyhoedd a pharhau i wasanaethu pob cynulleidfa, a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

5.4 Ar draws ei allbwn newyddion, gall y BBC gefnogi cynulleidfaoedd i ymgysylltu â materion pwysig ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, y DU a rhyngwladol, a helpu pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd fel dinasyddion gweithredol a gwybodus. Wrth i gynulleidfaoedd symud fwyfwy oddi wrth lwyfannau traddodiadol, mae'n rhaid i'r BBC, fel darparwyr newyddion eraill, addasu i'r arferion newidiol hyn er mwyn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau a chyflawni ar gyfer pob cynulleidfa.

5.5 Mae gan allbwn newyddion y BBC gynulleidfa eang ac mae ganddo'r cyrhaeddiad uchaf ar draws llwyfannau o blith yr holl ddarparwyr newyddion, gan gyrraedd 68% o holl oedolion y DU ar draws ei wahanol lwyfannau (teledu, radio, gwefan newyddion, BBC Sounds a BBC iPlayer).[34] Mae hefyd yn dal yn uchel ei barch o ran ymddiriedaeth a chywirdeb ar draws ei

[34] Ofcom, 10 Medi 2024. News consumption in the UK: 2024 research findings, t.9.

lwyfannau. Mae 68% o oedolion y DU sy'n defnyddio darpariaeth newyddion teledu'r BBC yn rheolaidd yn ei sgorio'n uchel am ymddiriedaeth ac mae 70% yn ei sgorio'n uchel am gywirdeb, ac mae 67% yn rhoi sgôr uchel i newyddion y BBC ar-lein am ymddiriedaeth a 70% am gywirdeb, yn debyg i sgoriau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs) eraill.[35]

5.6 Mae rôl y BBC yn y sector cyfryngau lleol hefyd yn ymestyn y tu hwnt i'r newyddion mae'n ei gynhyrchu ar draws ei lwyfannau. Mae ganddo ofynion i gynnal partneriaethau, a all fod gyda darparwyr newyddion eraill, a darparu dolenni digonol i ddeunydd a ddarperir gan drydydd partïon mewn perthynas â BBC Ar-lein. Edrychir ymhellach ar y rhwymedigaethau hyn yn Adran 6 isod.

5.7 Ofcom sy'n gyfrifol am ddal y BBC i gyfrif am ddarparu ei gylch gwaith, ar ran cynulleidfaoedd.[36] Bob blwyddyn, rydym yn adrodd ar berfformiad y BBC a hefyd yn edrych ar newidiadau diweddar i wasanaethau'r BBC, gan gynnwys mewn perthynas â'i allbwn lleol a rhanbarthol. Er enghraifft, mae'r BBC wedi gwneud rhai newidiadau wedi'u dogfennu'n dda i'w wasanaethau radio lleol yn Lloegr yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ailfuddsoddi gwariant yn ei wasanaethau newyddion lleol ar-lein. Roedd y newidiadau hyn yn cyflwyno mwy o rannu rhaglenni ar radio lleol ar adegau o'r dydd pan mae'r nifer sy'n gwrando yn is, gan ddiogelu gwasanaethau bwletinau newyddion lleol drwy gydol y dydd ar bob gorsaf leol, yn ogystal â chynnal rhaglenni chwaraeon byw.

5.8 Mewn ymateb i'n hadroddiad interim, rhoddodd nifer o unigolion sylwadau a oedd yn mynegi pryder ynghylch y newidiadau i radio lleol y BBC, gan gynnwys ynghylch pa mor lleol yw gwasanaethau a'r effaith ar gynulleidfaoedd sy'n dibynnu ar radio. Crynhoir y rhain yn Atodiad 1. Fe wnaethom hefyd nodi yn ein Hadroddiad Blynyddol 2022/23 ar y BBC bod cyhoeddiad y BBC am newidiadau o'r fath i radio lleol yn cael cryn feirniadaeth gyhoeddus.

5.9 Rydym wedi gwneud gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i fonitro effaith gystadleuol bosibl newidiadau i allbwn newyddion lleol ar-lein y BBC (gweler Atodiad 2) ac i ddeall yn well effaith newidiadau'r BBC i'w wasanaethau radio lleol ar gynulleidfaoedd, gan nodi bod penderfyniadau golygyddol, cyllidebol a chreadigol yn faterion i Fwrdd y BBC. Rydym wedi monitro effaith y newidiadau i radio lleol y BBC ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys dadansoddi data gwrando RAJAR ar draws gwahanol ddemograffeg ac ar wahanol adegau o'r dydd, ar sail y wybodaeth sydd ar gael hyd yma. Mae ein barn ar yr effaith ar y gynulleidfa wedi'i nodi'n fanwl yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC ar gyfer 2023-24. I grynhoi, ers i'r BBC gwblhau'r gwaith o gyflwyno'r newidiadau hyn ym mis Ionawr 2024, gwelsom fod cyrhaeddiad gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr wedi parhau i ostwng, yn unol â'r duedd cyn y newidiadau, ac mai ychydig o newid sydd wedi bod ym mhroffil y gynulleidfa sy'n gwrando ar radio lleol y BBC. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ynghylch ei ymrwymiad i adolygu effaith ei newidiadau i radio lleol y BBC ar grwpiau penodol o gynulleidfaoedd, a byddwn yn parhau i asesu perfformiad y BBC o ran darparu ar gyfer cynulleidfaoedd lleol ledled y DU.

5.10 Rydym hefyd yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Fel rhan o hyn, byddwn yn monitro metrigau allweddol mewn perthynas â safle'r BBC yn y sectorau

[35] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

[36] Mae ein rheoliadau'n cwmpasu tri maes: goruchwylio perfformiad y BBC i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus; diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a sicrhau safonau cynnwys yn rhaglenni'r BBC.

newyddion lleol (er enghraifft, cyfrannau gwylio/gwrando) ac effaith unrhyw newidiadau ychwanegol i wasanaethau newyddion lleol/rhanbarthol y BBC. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad yn ofalus, gan gynnwys drwy ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid.

## Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM)

5.11 Mae llawer o'r heriau sy'n wynebu darparwyr newyddion lleol hefyd yn berthnasol i ddarparwyr newyddion yn ehangach. O ganlyniad, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs) yn gorfod mabwysiadu strategaethau newydd sy'n esblygu i ddarparu cynnwys lle mae cynulleidfaoedd yn bodoli, er enghraifft drwy fuddsoddi yn eu cynnyrch newyddion digidol (fel gwefannau ac apiau) neu drwy ddefnyddio llwyfannau rhannu fideos fel TikTok yn gynyddol, gan barhau i ariannu'r gwasanaethau llinol y mae llawer o bobl yn parhau i'w defnyddio.

5.12 Er bod defnyddio cyfryngwyr ar-lein yn gallu helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd a allai fod yn anodd ymgysylltu â nhw fel arall, mae hefyd yn cynyddu dibyniaeth ariannol sefydliadau newyddion ar gwmnïau technoleg mawr, a gall arwain at anawsterau o ran priodoli, gan y gall defnyddwyr ei chael hi'n anodd cofio'n gywir pwy ddarparodd y straeon roeddent wedi'u gweld ar y cyfryngau cymdeithasol.[37] Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn gorfod llywio'r datblygiadau ym maes deallusrwydd artiffisial, gan gydnabod ei botensial i waethygu'r heriau presennol a dod â chyfleoedd newydd i ddarparwyr newyddion. Roedd trafodaethau â rhanddeiliaid fel rhan o'n Hadolygiad o Gyfryngau Lleol yn tynnu sylw at yr anawsterau mae darparwyr newyddion lleol hefyd yn eu hwynebu o ran harneisio'r manteision y gall cyfryngwyr ar-lein eu darparu, gan liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r gwasanaethau hynny. Rydym wedi cyfeirio o'r blaen at atebion posibl ar gyfer rhai o'r heriau y mae sefydliadau newyddion yn gyffredinol yn eu hwynebu gan gyfryngwyr ar-lein yn ein dogfen drafod plwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein ac yn ein diweddariad ymchwil i newyddion ar-lein.

5.13 Er gwaethaf yr heriau hyn, mae newyddion dibynadwy a chywir yn parhau i fod yn gonglfaen cylch gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac mae'n bwysig ei fod yn dal ar gael lle mae pobl eisiau cael gafael arno. Yn ddiweddar, fe wnaethom nodi'r fframwaith ar gyfer ein Hadolygiad nesaf o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a fydd yn ystyried yn fanwl gynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac argaeledd newyddion cywir o ansawdd uchel, gan gynnwys newyddion lleol, y gall cynulleidfaoedd ymddiried ynddo. Ymysg pethau eraill, bydd yr adolygiad yn asesu:

a) Sut gallwn ni gefnogi gallu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i newyddion o ansawdd uchel, gan gynnwys newyddiaduraeth ymchwiliol a gohebu lleol, o ystyried rôl gynyddol cyfryngwyr ac algorithmau ar-lein.
b) Y ffordd gall darlledwyr a phlatfformau gefnogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau cynulleidfaoedd i'w helpu i liniaru effaith camwybodaeth a thwyllwybodaeth. Wrth wneud hynny, byddwn yn gweithio gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddeall eu dulliau o liniaru camwybodaeth a thwyllwybodaeth ac ystyried beth arall y gellid ei wneud i roi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i aros yn ddiogel ac i ffynnu ar-lein; a

[37] Ofcom, 24 Hydref 2019, Adolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC , t. 27.

c) Sut gallwn ni gefnogi'r gwaith o ddarparu a chynhyrchu amrywiaeth eang o gynnwys yn y DU mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys newyddion cenedlaethol a lleol, o ystyried yr heriau cyllido.

5.14 Wrth i ni wneud y gwaith hwn, byddwn yn ystyried y safbwyntiau a'r heriau penodol i newyddion lleol sydd wedi cael eu nodi drwy'r Adolygiad o Gyfryngau Lleol hwn.

5.15 Bydd yr Adolygiad PSM yn cael ei gynnal mewn dau gam. Bydd y cam cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn ystod gaeaf 2024/25, gan adolygu perfformiad blaenorol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â'r heriau i'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Bydd yr ail gam yn canolbwyntio ar gyfleoedd yn y dyfodol i gefnogi system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fywiog, gan gynnwys ystyried sut gellir diogelu newyddion cywir o ansawdd uchel, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2025.

5.16 Yn ogystal â'r Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae Ofcom yn gwneud amrywiaeth o waith arall sy'n gysylltiedig â darparu newyddion lleol ar wasanaethau radio a theledu yn y DU.

## Newidiadau i reoleiddio gwasanaethau radio masnachol lleol

5.17 Er bod patrymau defnyddio newyddion lleol yn parhau i symud oddi wrth lwyfannau traddodiadol at ffynonellau ar-lein, mae'r defnydd o radio lleol wedi bod yn sefydlog dros y ddwy flynedd diwethaf, ar oddeutu 53% o oedolion y DU.[38] Mae darparu newyddion lleol ar radio masnachol wedi cael ei ddiogelu gan Ddeddf Cyfryngau 2024, sy'n diweddaru'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer radio masnachol. Mae'r Ddeddf yn dileu rhai rheolau ar gyfer gwasanaethau radio masnachol lleol, fel y rheini sy'n ymwneud â lle mae rhaglenni'n cael eu gwneud a pha gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae, gan gryfhau'r ddarpariaeth newyddion lleol, gan gyflwyno gofyniad newydd ar gyfer newyddion sy'n cael ei 'gasglu'n lleol'.[39] Rydym yn gwneud gwaith i roi'r newidiadau hyn ar waith a byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar amodau trwydded newydd ar gyfer trwyddedau analog masnachol lleol a chanllawiau lleolrwydd drafft yn 2025.

## Teledu Lleol

5.18 Mae'n rhaid i'r 34 o orsafoedd teledu lleol sydd ar yr awyr yn y DU ddarparu rhaglenni lleol, gan gynnwys bwletinau newyddion lleol, i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y maent wedi'u trwyddedu ar ei chyfer. Er nad oedd cyfranogwyr yn ein hymchwil ansoddol yn sôn llawer am rôl gorsafoedd teledu lleol, ac roedd ein hymchwil meintiol yn awgrymu defnydd isel o deledu lleol ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol[40], rydym yn cydnabod bod darparwyr teledu lleol yn gallu defnyddio eu safle mewn cymunedau lleol i ddarparu cynnwys newyddion lleol, gan gynnwys drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill yn y sector cyfryngau lleol i helpu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Yn benodol, dyfarnwyd contract tair blynedd i Notts TV yn 2021 i gyflogi

[38] Ffynhonnell: RAJAR; Pob oedolyn 15 oed a hŷn.
[39] Mae hyn yn adlewyrchu casgliadau ymgynghoriad 2017 y Llywodraeth ar ddadreoleiddio radio masnachol.
[40] Canfu ein harolwg cyfryngau lleol meintiol ar gyfer 2023 fod 5% o oedolion y DU yn defnyddio sianeli teledu lleol i gael newyddion a gwybodaeth leol. Mae ffynhonnell arall yn dangos bod sianeli teledu lleol, ar draws y DU, wedi cael cyfanswm o 1.4 miliwn o wylwyr drwy DTT (sy'n cynrychioli 5% o wylwyr DTT) ar gyfartaledd bob mis rhwng 5pm ac 8pm – mae'r slot amser hwn yn debygol o gynnwys y rhaglen newyddion lleol fin nos, sy'n amrywio ar draws sianeli teledu lleol, ond bydd hefyd yn cynnwys rhaglenni eraill (TV Analytics, Mai-Medi 2024, cyrhaeddiad 1+ munud).

Gohebwyr Democratiaeth Leol fel rhan o'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol (LDRS), ac mae KMTV, y sianel deledu leol ar gyfer Caint, yn treialu gohebydd LDRS amlgyfrwng sy'n cynhyrchu cynnwys clyweledol ar gyfer yr ardal. Mae gan deledu lleol y potensial hefyd i sicrhau budd cymdeithasol drwy ddarparu hyfforddiant a chreu piblinellau talent ar gyfer y diwydiant ehangach.

5.19 Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Offeryn Statudol sy'n rhoi'r pŵer i Ofcom adnewyddu trwyddedau teledu lleol, gan gynnwys y drwydded amlblecs sy'n cael ei gweithredu gan Comux UK Limited. Byddwn yn cwblhau'r broses hon yn ystod 2025, a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r sector wrth iddo ddechrau ar gyfnod trwydded newydd o naw mlynedd. Fel rhan o'r broses adnewyddu, byddwn yn asesu sut bydd trwyddedeion yn cyflawni yn erbyn eu cwotâu rhaglenni lleol dros gyfnod nesaf y drwydded, yn dilyn y datganiad a gyhoeddwyd gennym yn gynharach eleni am gyflawni ymrwymiadau rhaglennu yn y sector. Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiad yn ddiweddar sy'n nodi ein proses adnewyddu trwyddedau a'r amserlen y byddwn yn ei dilyn.

## Radio cymunedol

5.20 Mae gorsafoedd radio cymunedol fel arfer yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fach ac yn cael eu rhedeg ar sail dim-er-elw. Maent wedi'u cynllunio i fod yn wasanaethau lleol i wasanaethu pobl leol, a dylai rhaglenni adlewyrchu anghenion a buddiannau'r gymuned. Gall gorsafoedd hefyd greu buddion cymunedol fel newyddion, er enghraifft drwy ddarparu newyddion a thrafodaethau cymunedol, cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi a all hefyd gyfrannu at y llif o dalent ar gyfer y sector ehangach.

5.21 Mae Ofcom wedi gwneud gwaith yn ddiweddar, gan gynnwys ymgysylltu â'r sector radio cymunedol dros gyfnod o 18 mis, i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu manteision cymdeithasol gan y sector. O ganlyniad, mae Ofcom wedi gwneud newidiadau i Brif Ymrwymiadau radio cymunedol i ddileu cwotâu penodol[41] a chanolbwyntio ar sicrhau, ymysg pethau eraill, bod trwyddedeion yn parhau i ddarparu budd cymdeithasol ac yn parhau i fod yn atebol i aelodau o'u cymuned. Mae'r newidiadau hyn yn cydnabod bod gwasanaethau radio cymunedol yn endidau nid-er-elw ac yn cael eu rhedeg yn bennaf gan wirfoddolwyr, a bod y budd cymdeithasol a ddarperir gan y sector yn rhan allweddol o'i rôl. Er enghraifft, drwy recriwtio gwirfoddolwyr a darparu addysg a hyfforddiant, a chreu partneriaethau gyda sefydliadau addysgol lleol i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn derbyn cymwysterau penodol yn ystod eu hymgysylltiad â'r orsaf. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector i roi'r newidiadau hyn ar waith.[42]

5.22 Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd yn bwriadu diweddaru'r ddeddfwriaeth radio cymunedol, i gydnabod newidiadau i'r sector radio cymunedol. Cynigir y newidiadau hyn mewn dau faes penodol: 1) diweddaru'r rheolau cyllido i adlewyrchu'r newidiadau yn y sector radio yn fwy cyffredinol, a 2) rhoi'r pŵer i Ofcom ymestyn trwyddedau radio cymunedol sydd wedi bod yn darlledu am 20 mlynedd am gyfnod pellach. Rydym yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig fod ar waith yn 2025/27.

---

[41] Gan gynnwys gofynion penodol o ran lleferydd/cerddoriaeth, allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn lleol, a gofynion iaith.

[42] I gael rhagor o wybodaeth am waith Ofcom yng nghyswllt radio cymunedol, edrychwch ar Ofcom, 31 Gorffennaf 2024. Media Nations: UK 2024, t.54-56.

## Rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) Ofcom

5.23 Mae gan Ofcom ddyletswydd i ymchwilio i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a'i hybu. Yn 2019, fe wnaethom sefydlu rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) i weithredu fel catalydd a chynullydd, gan weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid ar draws yr ecosystem ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae ein strategaeth tair blynedd ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, yn nodi sut bydd Ofcom yn cyflawni ei nod o wneud ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fusnes i bawb. Mae archwilio sut gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fynd i'r afael ag ystyriaethau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn rhan o'r gwaith hwn ac rydym yn bwriadu cyflawni'r amcan hwn drwy'r Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

5.24 Mae gan ymwybyddiaeth o'r cyfryngau rôl sylfaenol mewn cefnogi pobl i feithrin sgiliau meddwl yn feirniadol er mwyn iddynt gallu sylwi'n well ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, ac i nodi newyddion a gwybodaeth ddibynadwy.[43] Mae un agwedd ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a elwir weithiau'n llythrennedd newyddion, yn dysgu cynulleidfaoedd sut mae barnu dibynadwyedd a hygrededd newyddion a gwybodaeth, a gwahaniaethu rhwng newyddion a gynhyrchir yn broffesiynol a mathau eraill o gynnwys.

5.25 Roedd lledaeniad cyflym gwybodaeth ar-lein heb ei gwirio yn ystod y terfysgoedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ystod haf 2024 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y dulliau hyn a rôl newyddion lleol. Mewn amgylchedd lle mae llawer o bobl yn cael eu newyddion ar-lein o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys darparwyr newyddion traddodiadol, dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol neu ffynonellau newyddion eraill, rydyn ni'n gwybod bod camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn gallu cynyddu'n gyflym a mynd y tu hwnt i reolaeth, ac mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd gwybod beth maen nhw'n gallu ymddiried ynddo.[44] Rydym yn cydnabod efallai na fydd addysg ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn arwain at fwy o ddefnydd o gynnwys newyddion lleol, ond gall sicrhau gwell dealltwriaeth o rôl a gwerth newyddiaduraeth leol broffesiynol.

5.26 Mae hyn yn amlwg yn y Ffindir, lle mae dau fesur gwahanol yn awgrymu cydberthynas rhwng poblogaeth sy'n llythrennog yn y cyfryngau a lefelau uwch o ymddiriedaeth mewn newyddiaduraeth leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae gan y Ffindir draddodiad sefydledig o addysg ynghylch y cyfryngau ac mae'n addysgu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar draws cwricwlwm yr ysgol o'r blynyddoedd cynnar i addysg uwchradd. Mae'r wlad wedi bod ar frig Mynegai Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau - sy'n asesu'r gallu i ymwrthod â newyddion ffug gan ddefnyddio rhyddid y cyfryngau, addysg ac ymddiriedaeth mewn pobl ar draws 47 o wledydd Ewrop ac OECD - bob blwyddyn ers cyhoeddi'r Mynegai am y tro cyntaf yn 2017. Yn 2023, roedd y DU yn safle 13.

5.27 Canfu Adroddiad Newyddion Digidol Sefydliad Reuters 2024 hefyd mai ymddiriedaeth gyffredinol mewn newyddion yn y Ffindir oedd yr uchaf o'r gwledydd a arolygwyd, sef 69%, o'i gymharu â 36% yn y DU. Roedd ymddiriedaeth mewn papurau newydd rhanbarthol a lleol yn y DU yn uwch newyddion yn gyffredinol, ar 53%, er bod papurau newydd lleol a rhanbarthol yn y Ffindir wedi cael sgoriau uwch (80% a 78% yn y drefn honno). Mae amrywiaeth o resymau sy'n helpu i egluro cynnydd y Ffindir o ran ymwybyddiaeth o'r

[43] Mae Ofcom yn diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel "y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau".
[44] Ofcom, 19 Ebrill 2024. Adults' Media Use and Attitudes Report.

cyfryngau, ond mae'n amlwg bod ei ffocws strategol ar y maes hwn wedi bod yn llwyddiannus.

5.28 Mae cwricwlwm yr ysgol yn Lloegr yn cynnwys gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad penodol at ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a dim gofyniad i athrawon ddysgu'r elfennau hyn yng nghyd-destun bywyd ar-lein. Cafodd y Cwricwlwm i Gymru ei ddiweddaru'n ddiweddar a chyflwynwyd Fframwaith Cymhwysedd Digidol sy'n cynnwys elfennau o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac sy'n gwneud athrawon yn benodol gyfrifol ar draws y cwricwlwm. Mae'r Cwricwlwm Rhagoriaeth yn yr Alban yn cynnwys pynciau astudiaethau cymdeithasol lle mae materion fel camwybodaeth a thwyllwybodaeth a chasineb ar-lein yn fwy tebygol o gael eu haddysgu a'u harchwilio. Yng Ngogledd Iwerddon, mae TGCh yn bwnc trawsgwricwlaidd ac mae'n mapio'n dda gydag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae "ymwybyddiaeth o'r cyfryngau" hefyd yn nod cwricwlwm hyd at CA3.[45] Dysgir sgiliau a diogelwch personol i blant ar lefel gynradd ac uwchradd; ond prin yw'r cyfeiriadau at amgylcheddau ar-lein yn y pynciau hyn a byddai unrhyw gyfeiriadau'n cael eu cymhwyso'n benodol gan athrawon.

5.29 Ym mis Awst 2024, dywedodd y Llywodraeth ei bod yn cynnal adolygiad o'r cwricwlwm yn Lloegr i ddatblygu cynlluniau i wreiddio sgiliau hanfodol mewn gwersi i rymuso plant rhag twyllwybodaeth, newyddion ffug a damcaniaethau cynllwyn ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn clywed neges gyson gan ein rhanddeiliaid am bwysigrwydd addysgu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan gynnwys meddwl yn feirniadol, ar draws y cwricwlwm. Bydd Ofcom yn ymgysylltu â'r adolygiad o'r cwricwlwm sydd ar y gweill ble mae'n berthnasol i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

5.30 Byddwn hefyd yn comisiynu creu ymyriad i helpu pobl mewn cymunedau sy'n wynebu anfantais ariannol i adnabod ac osgoi camwybodaeth a thwyllwybodaeth drwy ddeall sut mae straeon yn dod yn newyddion, gan ganolbwyntio ar gefnogi cyfranogwyr i adrodd eu straeon lleol, sydd heb eu hadrodd.

5.31 Mae Ofcom hefyd yn cynllunio i ddarparu adnoddau a chanllawiau i baratoi sefydliadau sy'n darparu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn well i addysgu sgiliau hanfodol sy'n helpu pobl i ganfod camwybodaeth a thwyllwybodaeth.

## Ymchwil

5.32 Yn dilyn ein hymchwil meintiol yn 2023, a oedd yn ymchwilio i sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cyfryngau lleol, bydd Ofcom yn cynnal Arolwg Cyfryngau Lleol arall ddechrau 2025 i wella ein dealltwriaeth o agweddau at gyfryngau lleol, newyddion a gwybodaeth ar draws gwahanol rannau o'r wlad. Mae rhanddeiliaid wedi dweud y byddent yn croesawu ymchwil ychwanegol i daflu mwy o oleuni ar fath a swm y cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan gyfryngau lleol, a sut mae'r cyhoedd yn teimlo am gyfryngau lleol. Gall yr arolwg hwn fod yn dempled ar gyfer ymchwil yn y dyfodol y gallai Ofcom fod eisiau ei gynnal mewn ymateb i straeon newyddion lleol arwyddocaol.

[45] Nes bydd pobl ifanc yn 14 oed.

# Cefnogi cyfryngau newyddion lleol drwy drefn marchnadoedd digidol newydd

5.33 Yn ein hadroddiad interim fe wnaethom nodi bod rhai rhanddeiliaid yn y sectorau print ac ar-lein yn obeithiol y bydd y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 (DMCC) yn cymryd rhai camau i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn pŵer bargeinio sy'n bodoli wrth ddelio â llwyfannau digidol mawr fel Google a Facebook ac y bydd yn arwain at fwy o eglurder gyda thraffig cyfeirio. Mae Ofcom a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cyhoeddi cyngor ar y cyd ar sut gallai trefn o blaid cystadleuaeth i farchnadoedd digidol lywodraethu'r berthynas rhwng llwyfannau ar-lein a darparwyr cynnwys. Mae'r cyngor hwn yn nodi nifer o ffyrdd y gallai ymddygiad llwyfannau mawr effeithio'n niweidiol ar gyhoeddwyr. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg tryloywder dros algorithmau, mynediad cyfyngedig at ddata ar ymgysylltiad defnyddwyr, rheolaeth gyfyngedig dros gyflwyno a brandio cynnwys a thalu'n deg am gynnwys.

5.34 Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi ymgynghori ar ganllawiau drafft ar drefn cystadleuaeth y marchnadoedd digidol fel y'i sefydlwyd gan y Ddeddf DMCC. O dan y Ddeddf DMCC, mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gallu gosod gofynion ymddygiad ar weithgareddau digidol cwmnïau sydd â 'statws strategol yn y farchnad' (SMS) yn unol â'r amcanion canlynol: delio'n deg, dewisiadau agored, ac ymddiriedaeth a thryloywder. Gallai hyn gyfeirio at bob un o'r ymddygiadau a nodir yn y cyngor ar y cyd y soniwyd amdano uchod, yn ogystal â phryderon sy'n dod i'r amlwg gan gyhoeddwyr am hyfforddi modelau AI drwy ddefnyddio cynnwys ar-lein heb ddarparu tâl. Bydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd yn gallu datrys achosion o dorri amodau gofynion ymddygiad sy'n ymwneud â thelerau talu rhwng cwmni sydd â statws strategol yn y farchnad a thrydydd parti neu drydydd partïon drwy arfer ei bŵer i fabwysiadu'r mecanwaith cynnig terfynol. Bwriedir i'r offeryn hwn fod yn fesur os nad yw camau eraill cyn ac yn ystod y broses orfodi wedi llwyddo i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'n golygu bod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dewis rhwng cynigion ar delerau talu a gyflwynir gan y naill ochr neu'r llall.

5.35 Roedd ein hadroddiad interim hefyd yn trafod effeithiau'r codau bargeinio sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn Awstralia a Chanada. Ym mhob achos, roedd y ddeddfwriaeth yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu iawndal i safleoedd newyddion pan fydd eu cynnwys ar gael ar lwyfannau ar-lein mawr. Mae trefn cystadleuaeth y marchnadoedd digidol a nodir yn y Ddeddf DMCC yn ehangach na'r ddwy drefn hyn a bydd yn effeithio ar amrywiaeth o farchnadoedd, y tu hwnt i gyhoeddwyr newyddion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith debygol y drefn mewn unrhyw farchnad gan nad yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd eto wedi dynodi bod gan unrhyw gwmni statws strategol yn y farchnad mewn perthynas â gweithgaredd digidol penodol. Cyn iddo allu gwneud hyn, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo canllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, mae'n rhaid i'r Senedd gychwyn y Ddeddf DMCC, ac wedyn mae'n rhaid i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gynnal ymchwiliad i asesu a yw'r cwmni'n bodloni'r profion am statws strategol yn y farchnad yng nghyswllt y gweithgareddau digidol dan sylw, sydd ag amserlen statudol o naw mis.[46]

[46] Adran 14(2) o'r Ddeddf DMCC. Mae hyn yn amodol ar bŵer yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i ymestyn y dyddiad cau o dan yr amgylchiadau a nodir yn adran 104 o'r Ddeddf.

5.36 Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cynnal nifer o ymchwiliadau cystadleuaeth i farchnadoedd digidol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys ei ymchwiliadau parhaus i arferion technoleg hysbysebion Google, monitro'r ymrwymiadau sy'n cael eu cynnig gan Google yng nghyswllt y newidiadau i'w borwr Blwch Tywod Preifatrwydd a'i achosion sy'n edrych ar Play Store Google ac App Store Apple (sydd nawr ar gau ond a ddatgelodd bryderon y gellir eu hystyried o dan y drefn marchnadoedd digidol newydd). Mae canlyniadau ymchwiliadau fel rhain a rhai tebyg mewn awdurdodaethau eraill (fel ymchwiliad y Comisiwn Ewropeaidd i arferion Google yn y sector technoleg hysbysebion) eto i ddod, ond os caiff marchnadoedd digidol eu gorfodi i weithredu'n fwy teg ac effeithlon, gallai fod manteision i gyhoeddwyr ac i ddefnyddwyr.

5.37 Mae'n bwysig nodi mai nod rheoleiddio cystadleuaeth yw sicrhau bod marchnadoedd yn gweithredu'n deg ac nad yw pŵer y farchnad yn cael ei ddefnyddio i effeithio'n ormodol ar gystadleuaeth a chanlyniadau i ddefnyddwyr. Rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd marchnad hysbysebu ddigidol sy'n gweithredu'n dda yn darparu'r un refeniw i gyhoeddwyr ag roedd y farchnad hysbysebu print yn arfer ei wneud, o ystyried bod y farchnad hysbysebu ar-lein yn fwy cymhleth a bod gwerth yn llifo i'r naill gyfeiriad a'r llall. Mae cyhoeddwyr yn elwa o lwyfannau ar-lein yn arddangos ac yn hyrwyddo eu cynnwys, gan eu galluogi i greu perthynas â chynulleidfaoedd newydd. Mae llwyfannau'n elwa o refeniw hysbysebu uniongyrchol ac anuniongyrchol, gwella'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig drwy gynnwys cyhoeddwyr, mwy o deyrngarwch gan ddefnyddwyr, a gwell dealltwriaeth o'u defnyddwyr drwy'r ffordd maen nhw'n ymgysylltu â chynnwys.

5.38 Ar ben hynny, yn ein barn ni mae rheoleiddio o'r fath yn annhebygol o sicrhau a diogelu newyddion er budd y cyhoedd, rhywbeth rydym wedi'i weld nad yw'n cael ei wasanaethu'n dda gan y farchnad ar y cyfan, ond sy'n arwain at fanteision cymdeithasol ehangach. Mae angen dull gweithredu amlochrog i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector. Mae'n bosibl y bydd y drefn cystadleuaeth newydd i farchnadoedd digidol yn cyfrannu rhywfaint at sicrhau bod y berthynas rhwng y prif lwyfannau digidol a chyhoeddwyr yn deg i'r naill ochr a'r llall ac y gallai olygu bod refeniw ychwanegol yn mynd i ddarparwyr cyfryngau lleol. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd angen camau ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth gynaliadwy o newyddion lleol er budd y cyhoedd sy'n gallu llwyddo i gyrraedd cynulleidfaoedd.

# 6. Opsiynau ehangach i'w hystyried

6.1 Yn yr adran hon, rydym yn defnyddio ein hymchwil a'n dadansoddiad, yn ogystal â'n trafodaethau â rhanddeiliaid, i adlewyrchu amrywiaeth o syniadau a gyflwynwyd yn ystod ein hymgysylltiad neu a gynigiwyd gan adolygiadau blaenorol a allai helpu i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu newyddion lleol dibynadwy yn y DU. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr, yn hytrach rydym yn canolbwyntio ar feysydd lle mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn cynnig persbectif newydd neu lle gallai fod cyfle i roi ystyriaeth bellach i gynigion blaenorol, o ystyried y tueddiadau o ran defnyddio newyddion lleol a'r heriau cysylltiedig. Gellid cymhwyso llawer o'r syniadau hyn ar draws llwyfannau, gan gydnabod y ffordd y mae llawer o ddarparwyr newyddion lleol yn gweithredu erbyn hyn, yn ogystal â sut mae cynulleidfaoedd nawr yn tueddu i ddefnyddio newyddion a gwybodaeth leol. [47]

6.2 Mae'r syniadau hyn y tu allan i gylch gwaith rheoleiddio Ofcom ac nid ydym wedi cynnal asesiadau effaith nac wedi edrych ar ddewisiadau eraill. Felly, nid ydym mewn sefyllfa i gymeradwyo nac argymell y syniadau a gyflwynir. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod darpariaeth newyddion lleol lluosog ledled y DU er budd dinasyddion a defnyddwyr, ac rydym o'r farn y byddai ein hadolygiad yn anghyflawn heb y crynodeb hwn o awgrymiadau gan randdeiliaid ac adroddiadau blaenorol, sy'n cyd-fynd â'r pedwar prif faes o ran heriau ar gyfer y sector a nodwyd gennym ar ddiwedd Adran 4.

6.3 Rydym hefyd yn ymwybodol iawn bod nifer o'r syniadau a'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn cael eu llunio o amgylch dull canolog o'r brig i lawr o gefnogi cynaliadwyedd newyddion lleol yn y DU ac y gellid dylunio rhai i gefnogi'r diwydiant newyddion yn gyffredinol, yn hytrach na dim ond newyddion lleol. Pe bai unrhyw un o'r mentrau hyn yn cael eu hystyried ymhellach, byddai'n bwysig, ym mhob achos, datblygu dull polisi ac offer y gellid eu defnyddio'n hyblyg ar lefel y gwledydd a'r rhanbarthau, er mwyn cefnogi'r sector a chymunedau'n effeithiol mewn gwahanol amgylcheddau cyfryngau lleol ledled y DU.

6.4 Bydd cyfyngiadau ariannol yn cyfyngu ar y graddau y gellid bwrw ymlaen â'r opsiynau hyn. Serch hynny, rydym o'r farn y gallai rhoi cipolwg ar amrywiaeth o fecanweithiau cymorth posibl ar gyfer darparu newyddion lleol ddarparu mewnbwn defnyddiol i'r diwydiant, grwpiau diddordeb ehangach, a'r Llywodraeth, yn enwedig wrth i'r olaf ddatblygu ei strategaeth cyfryngau lleol newydd.

## Syniadau ar gyfer ymyriadau wedi'u hariannu

### Cyllid arloesi

6.5 Fel rhan o ymateb y Llywodraeth i Adolygiad Cairncross, cafodd Nesta y dasg o weinyddu cronfa arloesi treialon a gefnogir gan y llywodraeth gyda'r nod o wella'r cyflenwad o

[47] Mae'r rhan fwyaf o'r opsiynau a nodir wedi'u bwriadu i'r Llywodraeth (a'r BBC) eu hystyried. Felly, nid ydym wedi cynnal asesiad llawn o'u heffaith. Mewn egwyddor, byddem yn disgwyl i'n hargymhellion ehangach gael effaith gadarnhaol ar ddinasyddion a defnyddwyr y DU, gan gynnwys pob grŵp cydraddoldeb, ac ar y sector cyfryngau lleol.

newyddion er budd y cyhoedd. Lansiwyd Cronfa Beilot Newyddion y Dyfodol gwerth £2m yn 2019 a dewiswyd 20 o sefydliadau ar draws Lloegr o blith 178 o ymgeiswyr, a dyfarnwyd grantiau iddynt i brofi dulliau newydd ac arloesol o ymdrin â newyddion er budd y cyhoedd, gan gynnwys:

a) Shout Out UK, a gynlluniodd a chyflwynodd gyrsiau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed.
b) OneSub, a greodd wasanaeth tanysgrifio sy'n seiliedig ar Ddeallusrwydd Artiffisial i bersonoli profiad defnyddwyr drwy roi gwybodaeth iddynt am y defnydd o newyddion, eu rhagfarnau personol yn seiliedig ar y defnydd hwnnw ac argymhellion cyfoethocach ar gyfer erthyglau i gydbwyso eu defnydd, ac ail-weithio eu hestyniad porwr gwe Chrome i gasglu data.
c) The Bristol Cable, a brofodd fodelau ymgysylltu i weld a ellid eu defnyddio i feithrin ymddiriedaeth a pherthnasedd ymhlith cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan newyddiaduraeth yn y ddinas.

6.6 Ar ôl cwblhau'r gronfa beilot, canfu adroddiad diwedd rhaglen, Nesta fod 'egin ecosystem arloesi newyddion' yn ffurfio ond bod angen buddsoddiad cyhoeddus hirdymor mewn arloesi i gynnal newyddion er budd y cyhoedd. Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r Trysorlys greu cynllun newydd i "ddarparu cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig sy'n gweithio ar flaen y gad ym maes newyddiaduraeth", ond ni fwriwyd ymlaen â'r cynnig.

6.7 Yn 2023, roedd ymchwiliad Pwyllgor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol yn ystyried Cynllun Peilot Newyddion y Dyfodol ac yn ei adroddiad nododd rai beirniadaethau o'r gronfa a wnaed mewn cyflwyniadau i'r ymchwiliad, gan gynnwys ei fod yn rhy fach, yn canolbwyntio ar feysydd arbenigol na ellid eu graddio, ac y byddai wedi elwa o ffocws cliriach. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Llywodraeth adeiladu ar Gronfa Beilot Newyddion y Dyfodol a chreu cronfa newyddion tymor hir er budd y cyhoedd gyda chylch gwaith i gefnogi arloesedd.[48] Ar y pryd, nododd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y byddai'n "parhau i archwilio opsiynau ar gyfer mesurau ariannol ychwanegol i gefnogi'r sector". Nododd y Gweinidog ar y pryd hefyd fod yr Adran yn "ystyried a oes gwerth mewn datblygu cronfa fwy sylweddol gydag ymyriadau wedi'u targedu'n well".

6.8 Yn ein trafodaethau â rhanddeiliaid, roedd cefnogaeth i'r syniad o adfywio cronfa arloesi sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyllid sbarduno tymor byr i helpu darparwyr newyddion lleol i gofleidio ffyrdd newydd o wella allbwn ac adeiladu busnesau mwy cynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn gynnig gwahanol iawn i fodel cymhorthdal uniongyrchol sy'n talu i gynhyrchwyr cynnwys yn unig neu sy'n darparu rhyddhad neu gymhellion treth.

6.9 Roedd rhanddeiliaid a'n hymchwil ein hunain hefyd yn tynnu sylw at enghreifftiau rhyngwladol o lywodraethau'n darparu cymorth ariannol ar gyfer newyddion lleol. Yng Nghanada, bydd y Fenter Newyddiaduraeth Leol yn cael $58.8m yn ystod 2024-27 i gefnogi'r gwaith o greu newyddion ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Yn Ewrop, mae gwledydd fel Gwlad Belg, Denmarc a'r Iseldiroedd yn darparu amrywiaeth o gronfeydd i gefnogi arloesedd cyfryngau rhanbarthol a lleol.[49] Yn 2024, dyrannodd

[48] Y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Seithfed Adroddiad Sesiwn 2022-23, Cynaliadwyedd newyddiaduraeth leol, t. 19.
[49] Sofia Verza, Tijana Blagojev, Danielle Borges, Jan Kermer, Matteo Trevisan, Urbano Reviglio, Chwefror 2024. Uncovering news deserts in Europe: Risks and opportunities for local community media in the EU, p. 207.

llywodraeth Iwerddon €6m ar gyfer Cynlluniau Newyddiaduraeth gyda'r nod o ategu a gwella'r ddarpariaeth ddarlledu, print ac ar-lein ar gyfer awdurdodau lleol a gwrandawiadau llysoedd ardal a chylchdaith. Cyhoeddodd Llywodraeth Iwerddon €4m arall yng nghyllideb 2025 ar gyfer y cynllun, a chyllid newydd i gefnogi gwasanaethau radio masnachol annibynnol yn Iwerddon i gynhyrchu cynnwys newyddion a materion cyfoes lleol. Yn y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i gefnogi newyddiaduraeth leol yn uniongyrchol (gweler Adran 4, paragraff 4.20).

6.10 Mewn rhaglen Cyfryngau Lleol ar gyfer Democratiaeth sy'n cael ei hariannu gan yr UE i fynd i'r afael ag 'anialdiroedd newyddion', rhannwyd bron i €1.2M rhwng 42 o sefydliadau cyfryngau lleol mewn 17 o Aelod-Wladwriaethau'r UE rhwng mis Chwefror 2023 a mis Gorffennaf 2024. Rhoddwyd dyfarniadau i helpu derbynwyr i arloesi, datblygu strategaethau busnes newydd a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Canfu adolygiad o'r rhaglen fod 20 o wasanaethau gwe lleol a hyperleol newydd wedi cael eu creu, ac roedd chwech o hen gyhoeddwyr lleol yn gallu moderneiddio eu gwefannau presennol. Mae derbynwyr hefyd wedi arallgyfeirio eu busnesau drwy lansio apiau, cylchlythyrau e-bost, podlediadau a chynnwys fideo. Yn ogystal, cymerodd 15 o bobl ran mewn rhaglenni hyfforddi a mentora ar effeithlonrwydd a strategaeth busnes. Mae argymhellion yr adolygiad yn nodi bod y rhaglen wedi llwyddo i alluogi arloesi ystwyth, ond mae angen cynnal cyllid yn y tymor hir i sicrhau effaith barhaol ac i ymateb i'r farchnad cyfryngau sy'n newid.

6.11 Mae gwledydd sydd â thraddodiad o ddyngarwch mewn newyddion wedi llwyddo i drefnu cronfeydd sylweddol i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r cyfryngau lleol. Er enghraifft, mae Press Forward wedi addo $500m er mwyn ail-ddychmygu newyddion lleol yn yr Unol Daleithiau. Fodd bynnag, yn y DU, gallai trafferthion sefydliadau presennol sy'n gweithredu yn y sector i ddod o hyd i gymorth ariannol i fynd i'r afael â'r heriau hyn ddangos nad yw dyngarwch ar ei ben ei hun yn debygol o ddarparu digon o gefnogaeth hirdymor ar gyfer cronfa arloesi yn y DU.

6.12 Roedd rhai rhanddeiliaid roeddem wedi siarad â nhw yn dadlau y gallai fod yn ofynnol i gyfryngwyr ar-lein dalu ardoll i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r sector newyddion i gydnabod y manteision ariannol maent yn eu cael o greu newyddion yn y DU, er bod cyfryngwyr ar-lein wedi dadlau eu bod yn cael refeniw cyfyngedig o newyddion.[50] Gall cyllid y Loteri, y mae llawer ohono'n canolbwyntio ar y gymuned ac sydd wedi darparu grantiau unigol i nifer o ddarparwyr newyddion annibynnol, hefyd fod yn ffynhonnell gyllid arall bosibl.

6.13 Wrth edrych i'r dyfodol, efallai y bydd achos dros gronfa arloesi gyda chylch gwaith i ddarparu cyllid i helpu darparwyr newyddion lleol unigol gofleidio ffyrdd newydd o wella allbwn ac adeiladu busnesau mwy cynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Gallai hyn helpu i gefnogi cynaliadwyedd newyddion lleol er budd y cyhoedd yn y DU yn gyffredinol. Byddai angen gwneud rhagor o waith i bennu meini prawf ac amcanion clir ar gyfer y cynllun ac i bennu lefel a hyd y cyllid. Byddai angen gwaith hefyd i benderfynu pwy fyddai'n rheoli cronfa o'r fath (pa un a fyddai, er enghraifft, yn cael ei rheoli gan Sefydliad fel y disgrifir isod neu gan gorff arall).

[50] Y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Seithfed Adroddiad Sesiwn 2022-23, Cynaliadwyedd newyddiaduraeth leol, t. 34.

## Crynodeb

> Gallai creu cronfa arloesi hirdymor, wedi'i hariannu'n briodol, i gefnogi'r gwaith o ddarparu newyddion lleol er budd dinasyddion a defnyddwyr, ategu ymdrechion y sector ei hun i gynnal ei hun, a helpu i wneud iawn am y cymorth cyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd. Yr ydym yn cydnabod bod cyllid, fel ar gyfer opsiynau eraill, yn heriol.

# Sefydliad Newyddion er Budd y Cyhoedd

6.14 Mae'r syniad o gorff i gefnogi cynaliadwyedd newyddion er budd y cyhoedd yn y DU, neu yn un o'i wledydd, wedi cael ei gynnig gan sawl adolygiad a gweithgor blaenorol. Argymhellodd Adolygiad Cairncross (2019) y dylai Llywodraeth y DU sefydlu Sefydliad Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd, argymhellodd Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd yr Alban (2021) y dylai Llywodraeth yr Alban weithio gyda rhanddeiliaid i sefydlu Sefydliad Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd yn yr Alban, ac argymhellodd Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru (2023) y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Sefydliad Cyfryngau Cymru.

6.15 Bum mlynedd ers Adolygiad Cairncross, mae'r heriau i gynnal darpariaeth newyddion lleol dibynadwy (gweler Adran 4) yn parhau ac ychydig o ysgogiadau sylfaenol ac eilaidd sydd ar gael ar hyn o bryd i ddarparu cymorth ariannol, sefydliadol a strategol lle mae ei angen. Ar hyn o bryd nid oes un sefydliad wedi'i ariannu'n dda i weithredu fel cynullydd i helpu i arwain a siapio dyfodol y sector newyddion lleol neu ehangach. Yn absenoldeb corff penodol, mae sefydliadau eraill wedi bod yn gwneud gwaith gwerthfawr yn y maes hwn. Er enghraifft:

a) Mae'r Public Interest News Gateway (neu Ping!), wedi darparu ffrwd refeniw newydd ar gyfer newyddiadurwyr cymunedol annibynnol drwy sicrhau bod eu cynnwys ar gael yn haws i gyhoeddwyr cenedlaethol a rhanbarthol traddodiadol. Mae hyn wedi cael ei gynnal ar y cyd â'r Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol (ICNN), sy'n cefnogi canolfannau newyddion cymunedol a sefydliadau newyddion hyperleol, a Menter Newyddion Google, sy'n gweithio gyda chyhoeddwyr i fynd i'r afael â chamwybodaeth a rhannu adnoddau.
b) Mae'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ) yn cynnal ymchwil a hyfforddiant. Cyhoeddodd yn ddiweddar y byddai'n ymrwymo £450k o gyllid i'r Prosiect Newyddion Cymunedol, ar ôl i Meta dynnu allan o'r cynllun, er ein bod yn nodi, yn y tymor hir, nad yw'r cyllid hwn yn unig yn debygol o fod yn ddigonol i gynnal maint presennol y cynllun.
c) Mae PINF yn cefnogi sefydliadau annibynnol sy'n darparu newyddion lleol er budd y cyhoedd, yn cynnal ymchwil ac yn nodi ffyrdd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd a meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o newyddion er budd y cyhoedd (gweler paragraff 6.57).

6.16 Mae amrywiaeth o syniadau y dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gallent helpu'r sector, y gellid eu rhoi ar waith o bosibl drwy fodel sefydliad. Er enghraifft: darparu cynlluniau cyllido y gellir cystadlu amdanynt, nodi ffyrdd o ddatblygu'r llif o dalent o newyddiadurwyr newydd ar draws llwyfannau a rhoi cynlluniau talebau ar waith i annog pobl i ymgysylltu â newyddion. Roedd galw hefyd am greu storfa ganolog ar gyfer ymchwil, ac am gynnal ymchwil newydd ar bynciau fel sut i fynd i'r afael â dirywiad mewn ymgysylltiad cynulleidfaoedd yng nghyd-destun tirwedd cyfryngau fwyfwy heriol, wedi'i dadgyfuno, neu ddadansoddiad i ddeall cynnwys, swm a dosbarthiad newyddion lleol yn well.

6.17 Mae'r Ganolfan ar gyfer Lluosogrwydd a Rhyddid Cyfryngau yn Sefydliad Prifysgol Ewrop yn Fflorens yn enghraifft o gorff o'r fath. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid, fel yr UE, cyrff y diwydiant a rheoleiddwyr, i gynnal a dosbarthu ymchwil ar faterion yn ymwneud â'r cyfryngau yn Ewrop, yn ogystal â darparu hyfforddiant a gweinyddu rhaglenni cyllido wedi'u targedu fel y prosiect Cyfryngau Lleol dros Ddemocratiaeth. Ar draws Ewrop mae nifer o sefydliadau eraill sy'n cyflawni rhai o'r swyddogaethau a ddisgrifir uchod, megis Cronfa Newyddiaduraeth yr Iseldiroedd - SVDJ sy'n derbyn arian gan Weinyddiaeth Addysg, Diwylliant a Gwyddoniaeth yr Iseldiroedd i ariannu grantiau yn arbennig ar gyfer newyddiaduraeth leol, newyddiaduraeth ymchwiliol ac arloesedd, ac i rannu gwybodaeth a thueddiadau am y sector, cynnal digwyddiadau a chynnal ymchwil.

6.18 Fodd bynnag, byddai creu corff newydd yn gostus ac mae'r cwestiwn cyllid yn heriol o ran canfod a chynnal cyllid a sicrhau annibyniaeth sefydliad o'r fath. Gallai hyd yn oed cyllid hyd braich ar gyfer newyddiaduraeth beryglu canfyddiadau o ymyrraeth amhriodol gan y llywodraeth â'r wasg, fel y nodwyd gan ymateb Llywodraeth y DU i Adolygiad Cairncross wrth egluro ei phenderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r argymhelliad, ac ymateb Llywodraeth yr Alban i adroddiad y Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd. Mae hyn yn deimlad a adleisiwyd hefyd gan rai rhanddeiliaid yn y diwydiant.

6.19 Byddai angen gwaith pellach i bennu hyfywedd sefydliad a ariennir yn briodol gyda chylch gwaith i gefnogi cynaliadwyedd newyddion lleol er budd y cyhoedd yn y DU, gan gynnwys asesu sut y gellid ei ariannu dros y tymor hir, a allai sefydlu ac arwain corff o'r fath ac a ddylid ei ffurfweddu i ddarparu cymorth i sector newyddion ehangach y DU hefyd.

### Crynodeb

> Er i'r Llywodraeth flaenorol nodi yn 2020 nad oedd yn bwriadu mynd ar drywydd creu corff a ariennir yn gyhoeddus sydd â chylch gwaith i gefnogi cynaliadwyedd newyddion er budd y cyhoedd lleol, mae sefydliad a ariennir yn briodol yn gynnig sydd wedi cael cefnogaeth gyffredinol yn y gorffennol ac sy'n dal yn opsiwn y gellid ei ystyried yn y dyfodol.

## Y Bartneriaeth Newyddion Lleol a'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol

6.20 Mae Partneriaeth Newyddion Lleol (LNP) y BBC yn gydweithrediad rhwng y BBC a dros 200 o sefydliadau cyfryngau lleol, sy'n cynrychioli dros 1,100 o wasanaethau print, ar-lein neu ddarlledu. Mae'n cynnwys tri phrosiect craidd, sy'n cael eu hegluro'n fanwl yn ein hadroddiad interim.[51] Yn gryno: mae'r Hyb Newyddion yn rhoi mynediad i bartneriaid at ddeunydd fideo lleol y BBC i'w ddefnyddio ar-lein. Mae'r Uned Data a Rennir (SDU) yn darparu newyddiaduraeth data ac yn darparu hyfforddiant data i'r diwydiant. Mae'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol (LDRS) yn lleoli 165 o Ohebwyr Democratiaeth Leol mewn sefydliadau cyfryngau lleol i adrodd ar gynghorau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill ar draws pob ardal awdurdod lleol yn y DU, ac mae eu hadroddiadau ar gael i bob partner drwy borth canolog. Nid yw'r ffordd y mae'r LNP yn gweithredu ac yn cyflawni yn dod o dan reoleiddiad Ofcom o'r BBC.

6.21 Yn ein hadroddiad interim, fe wnaethom nodi'r consensws cyffredinol gan randdeiliaid ar draws y sector bod yr LDRS yn benodol yn ychwanegiad pwysig at y sector. Ystyriwyd bod y

[51] Ofcom, 2024. Adolygiad o'r cyfryngau lleol yn y DU, Rhan 1: Canfyddiadau cychwynnol, t.41.

mathau o adroddiadau y mae'r gwasanaeth yn eu darlledu o werth cymdeithasol uchel ond eu bod yn isel o ran cynaliadwyedd masnachol, o ystyried eu bod yn ddrud i'w cynhyrchu a bod ganddynt gynulleidfa gymharol fach. Disgrifiwyd eu bod yn llinell sylfaen bwysig ar gyfer adrodd ar ddemocratiaeth leol y gall gweddill y sector adeiladu arni. Yn y cyd-destun hwnnw, awgrymodd rhanddeiliaid amrywiaeth o ffyrdd y gellid mynd ati i wella ac ehangu'r gwasanaeth.

6.22 Ar ôl ystyried y safbwyntiau a gyflwynwyd i ni drwy ein sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrafodaethau pellach â'r BBC, yr NMA a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), ac asesu'r dadansoddiad blaenorol o'r LNP a'r LDRS, rydym o'r farn bod y bartneriaeth yn cynnig gwerth unigryw a phwysig i'r sector. Rydym o'r farn bod modd rhannu'r drafodaeth ynghylch dyfodol y cynllun yn bedwar maes allweddol, a nodir isod:

## Tryloywder ac atebolrwydd

6.23 Ar hyn o bryd, mae'r LNP yn cael ei ariannu drwy ffi trwydded y BBC ac felly mae'n rhesymol y dylai ei berfformiad fod yn dryloyw ac yn atebol. Cynhaliodd y BBC adolygiad mewnol trylwyr o'r LNP yn 2020, ar hyd braich oddi wrth y tîm LNP craidd. Edrychodd hwn ar bob agwedd ar weithrediad y cynllun a gwnaeth gyfres o argymhellion. Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae llawer o'r pryderon rydym wedi'u clywed gan y diwydiant yn adleisio'r materion a amlygwyd yn yr adolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys y farn ganlynol: dylid rhoi mwy o gyfleoedd i safleoedd newyddion lleol annibynnol ddod yn gyflenwyr LDRS; dylid cynhyrchu mwy o gynnwys fideo a sain yn ogystal ag allbwn testun; a dylid cyfleu a phlismona rheolau'r cynllun yn well. Yn ddiweddar, ailadroddodd yr NUJ ei bryderon ynghylch gofyn i newyddiadurwyr LDRS weithio y tu allan i'w cylch gwaith, yn ogystal â phryderon am bwysau ar eu llwyth gwaith a'u cyflog. Mewn ymateb, mae'r BBC wedi nodi y bydd yn cyhoeddi model cyllido newydd cyn bo hir ar gyfer cyfnod contract 2025-2027.

6.24 Mae cyfeiriadau at yr LNP a'r LDRS yng Nghynlluniau Blynyddol ac Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol dilynol y BBC wedi canolbwyntio ar nifer y straeon y mae wedi'u cynhyrchu ac nid ydynt wedi cynnwys y diweddaraf am yr argymhellion a wnaed yn adolygiad 2020. Fodd bynnag, rydym wedi dysgu o'n trafodaethau â'r BBC bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud, fel y newidiadau i faint contractau LDRS, sy'n cael eu trafod ymhellach isod.

6.25 Er ein bod yn cydnabod y gall sensitifrwydd ynghylch cyfrinachedd fod yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn, mae'n ymddangos bod lle i'r BBC wneud mwy i ddangos i randdeiliaid sut mae'r cynllun yn perfformio. Mae hyn yn cynnwys sut mae wedi dwyn sefydliadau lleol i gyfrif a sut mae'r newyddiadurwyr sydd wedi pasio drwy'r LDRS wedi gallu defnyddio eu sgiliau a'u profiad yn y sector yn ehangach.

## Mynediad ac ymwybyddiaeth

6.26 Rydym yn cydnabod yr ymdrechion y mae'r BBC wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd i wneud yr LNP yn fwy hygyrch, yn enwedig i sefydliadau cyfryngau annibynnol. Mae'r BBC wedi gweithio i ddenu mwy o bartneriaid yn ystod oes y cynllun, gyda'r nifer yn cynyddu o tua 80 ar y dechrau i dros 200 heddiw.

6.27 Dewisodd y BBC hefyd leihau nifer y gohebwyr LDRS y mae'n rhaid i ddarparwr newyddion eu cyflogi i fod yn gyflenwr er mwyn annog mwy o gwmnïau llai ac annibynnol i wneud cais am rownd 2021 o ddyfarnu contractau gohebwyr. Cynyddodd nifer y sefydliadau newyddion lleol a sicrhaodd gontractau yn 2021 o 10 i 18, ond roedd nifer y ceisiadau yn fach o'i

gymharu â nifer y partneriaid ac arhosodd y mwyafrif sylweddol o ohebwyr LDRS gyda chyhoeddwyr mawr.

6.28 Mae'r broses ymgeisio ar gyfer contractau LDRS ar gyfer cyfnod 2025-27 y cynllun ar fin digwydd ac mae'n amlwg o ymgysylltiad diweddar y BBC â rhanddeiliaid ei fod yn awyddus i annog mwy o bobl annibynnol i wneud cais i fod yn gyflenwyr yn ogystal â phartneriaid. Mae'n amlwg yn ddymunol i'r BBC rannu'r neges hon ymhlith ei holl bartneriaid, er mwyn annog amrywiaeth eang o geisiadau.

6.29 Er bod rhai gorsafoedd radio masnachol a chymunedol lleol a theledu lleol yn bartneriaid LNP ar hyn o bryd, ac mae gan lond llaw gontractau gyda chyflenwyr, fel Notts TV a Radio Exe, mae mwyafrif helaeth y partneriaid a'r cyflenwyr yn dod o'r sectorau newyddion print ac ar-lein. Byddai sicrhau bod darparwyr lleol sy'n canolbwyntio ar gynnwys clyweledol yn ymwybodol o fanteision y cynllun a sut gallant ymgysylltu ag ef yn cyfrannu at amrywiaeth y bartneriaeth ar draws gwahanol lwyfannau.

6.30 Mae'r BBC hefyd wedi cymryd camau i wneud y pecynnau data cyfoethog a'r hyfforddiant newyddiaduraeth data y mae'n eu cynnig drwy'r SDU yn fwy hygyrch i safleoedd newyddion annibynnol. Roedd ei adolygiad o'r cynllun yn 2020 yn nodi y gallai fod yn anodd i ystafelloedd newyddion bach anfon newyddiadurwr ar y cwrs newyddiaduraeth data tri mis y mae'r BBC yn ei gynnig, ac rydym yn deall bod y BBC wedi datblygu rhywfaint o hyfforddiant ar-lein byrrach yn ystod pandemig Covid-19 sy'n fwy hygyrch.

6.31 Mae'r BBC wedi cymryd camau i wella mynediad at yr LDRS a'r SDU ar gyfer partneriaid. Gallai camau pellach gynnwys hyrwyddo manteision y bartneriaeth i'r sector cyfan yn glir er mwyn i ystod ehangach o safleoedd newyddion allu manteisio'n llawn ar yr hyn sydd ar gael, gan gynyddu effaith y cynllun a, maes o law, gyrraedd mwy o ddefnyddwyr gyda newyddion er budd y cyhoedd.

6.32 Gallai agor y bartneriaeth i ganiatáu i sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â newyddion ac sydd wedi'u harchwilio'n briodol, elwa o'i hadnoddau hefyd helpu cynnwys er budd y cyhoedd yr LNP i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach. Er enghraifft, gallai prifysgolion ddefnyddio straeon LDRS, pecynnau data SDU a hyfforddiant data ar gyfer addysg (gan gynnwys cyrsiau cyfryngau a newyddiaduraeth), ymchwil a chyfryngau myfyrwyr. Gall mudiadau dielw eraill elwa o allu rhannu gwybodaeth leol sy'n berthnasol i'w gwaith.

## Ffocws ac ehangu

6.33 Awgrymodd Adolygiad Cairncross, ymchwiliad Pwyllgor DCMS i gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol, a llawer o'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw ffyrdd amrywiol o ehangu'r cynllun i helpu i gefnogi'r sector ymhellach a sicrhau bod mwy o newyddion lleol ar gael er budd y cyhoedd. Ar hyn o bryd mae gan yr LDRS 165 o newyddiadurwyr sydd rhyngddynt yn gwasanaethu pob un o'r 317 o awdurdodau lleol yn y DU, ac mae rhai yn gwasanaethu nifer o awdurdodau. Mae awgrymiadau ar gyfer sut gellid newid ffocws neu ehangu agweddau ar y gwasanaeth wedi cynnwys:

a) Cynyddu nifer y gohebwyr er mwyn caniatáu mwy o ddarpariaeth benodol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol;
b) Symud y ffocws o ddefnyddio Hyb Newyddion y BBC i ddarparu cynnwys amlgyfrwng i gynyddu faint o gynnwys amlgyfrwng a gynhyrchir gan ohebwyr LDRS.
c) Cynyddu nifer y gohebwyr i ehangu cwmpas yr adroddiadau i gynnwys ystod ehangach o sefydliadau cyhoeddus, fel ymddiriedolaethau iechyd, awdurdodau tân a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu; a

d) Cynyddu nifer y gohebwyr i dargedu ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan safleoedd newyddion lleol eraill.

6.34 Mae cynigion a) a b) yn adeiladu ar yr hyn y mae'r LDRS yn ei wneud ar hyn o bryd i wella'r gwerth mae'n ei ddarparu, tra bo c) a d) yn cynnig datblygu i feysydd newydd. Mae risgiau yn ogystal â manteision i'r olaf. Byddai ehangu i wella'r sylw a roddir i amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus yn eu dal i gyfrif yn well, ond byddai'n gweld y gwasanaeth yn ysgwyddo mwy fyth o'r hyn y dylai newyddiaduraeth leol fod yn ei ddarparu. Byddai canolbwyntio ar ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn arwain at well gohebu ar gyfer y rhannau hynny o'r wlad sydd wir ei angen ond a fyddai'n gosod y bartneriaeth fel gwasanaeth i fynd i'r afael â 'methiant yn y farchnad' yn hytrach na darparu llinell sylfaen gyfannol ar gyfer newyddiaduraeth leol er budd y cyhoedd ledled y DU.

6.35 Mae rhanddeiliaid yn y sectorau print a radio yn awyddus i'r BBC rannu cynnwys sain a fideo sy'n gallu eistedd ochr yn ochr â hysbysebu. Mae modd gosod hysbysebion ochr yn ochr â chynnwys amlgyfrwng sy'n cael ei gynhyrchu gan ohebydd LDRS, yn wahanol i gynnwys brand y BBC sy'n cael ei rannu drwy'r Hyb Newyddion. Mae partneriaid wedi croesawu'r gohebydd LDRS amlgyfrwng sy'n cael ei dreialu gyda KM Media Group (sy'n cynhyrchu gwefannau a phapurau newydd lleol yn ogystal â gorsafoedd radio a sianel deledu leol mewn partneriaeth â Phrifysgol Caint). Fel y nodwyd yn ein hadroddiad interim ac yn adolygiad 2020 y BBC o'r LNP, mae'r Hyb Newyddion ei hun wedi cael ei danddefnyddio gan bartneriaid oherwydd y broblem hysbysebu hon a phrofiad gwael defnyddwyr. O'r hyn mae rhanddeiliaid wedi'i ddweud wrthym, efallai y byddai'n werth i'r BBC ystyried a allai ailddyrannu adnoddau'r Hyb Newyddion i rannau eraill o'r LNP, fel gohebwyr amlgyfrwng.

6.36 Nododd adolygiad 2020 y BBC fod y pecynnau data a'r hyfforddiant newyddiaduraeth data a gynigir gan yr Uned Data a Rennir wedi llwyddo i annog defnyddio newyddiaduraeth data mewn ystafelloedd newyddion partneriaid. Mae hyn yn unol ag argymhelliad Adolygiad Cairncross y dylai'r BBC wneud mwy i rannu ei arbenigedd technegol a digidol er budd cyhoeddwyr lleol. Mae hefyd yn awgrymu y dylai partneriaethau cryfach â'r diwydiant newyddion lleol sicrhau bod buddsoddiad parhaus y BBC yn ei allu ei hun i gasglu a dosbarthu newyddion yn gallu dwyn manteision ehangach i'r diwydiant newyddion lleol. Mae Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r BBC yn 2024 hefyd yn tynnu sylw at rôl y BBC wrth gydweithio â sector y wasg ac mae'n annog y BBC i ystyried beth arall y gall ei wneud i gefnogi pob rhan o'r sector newyddion lleol. Gallai'r BBC adeiladu ar yr hyfforddiant mae'n ei gynnig ar hyn o bryd i ddarparwyr lleol a chydweithio ymhellach â'r sector i gynyddu effaith straeon lleol pwysig.

6.37 Gellid ystyried y mathau o ehangu a amlinellir uchod wrth lunio dyfodol y bartneriaeth ar gyfer cyfnod Siarter nesaf y BBC. Bydd sut gellid ariannu unrhyw gynlluniau i ehangu yn rhan hanfodol o'r trafodaethau hyn.

## Cyllid

6.38 Er y gallai rhai o'r newidiadau a nodir uchod fod yn gyraeddadwy o fewn cyllideb bresennol y cynllun, byddai angen cyllid ychwanegol i ehangu'n sylweddol. Daw'r holl gyllid ar gyfer yr LNP ar hyn o bryd o ffi trwydded y BBC. O ystyried bod y BBC yn wynebu pwysau cyllido yn ehangach, mae angen ystyried model cyllido'r bartneriaeth ymhellach yn y dyfodol i benderfynu a yw ffi'r drwydded yn unig yn gynaliadwy ar gyfer ei pharhad neu er mwyn ei hehangu, neu a oes angen ffynonellau cyllid ychwanegol neu amgen.

6.39 Y Llywodraeth a'r BBC fydd yn trafod cyllid y bartneriaeth yn y dyfodol yn eu trafodaethau ar gyfer Siarter nesaf y BBC, sy'n dechrau yn 2028. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau sy'n

wynebu llawer o ddarparwyr cyfryngau lleol ar hyn o bryd, pe bai rhagor o gyllid yn cael ei sicrhau cyn dechrau cyfnod nesaf y Siarter, gellid bwrw ymlaen â rhai o'r meysydd posibl i'w hehangu.

### Crynodeb

> Mae ein canfyddiadau'n dangos y byddai'n werth asesu pob un o'r meysydd canlynol wrth ystyried dyfodol y bartneriaeth: tryloywder ac atebolrwydd y cynllun; ei effaith a'i berfformiad; mynediad at ei brosiectau a'i gynnwys, a'i botensial i ehangu. Gallai hyn gyfrannu at drafodaethau'r Siarter rhwng y Llywodraeth a'r BBC ynghylch dyfodol y cynllun, gan gynnwys yr achos dros unrhyw ehangu neu gyllid ychwanegol yn y dyfodol.

## Y rheolau ar gyfer hysbysiadau cyhoeddus

6.40 Mae statud yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus am fathau penodol o achosion cyfreithiol, fel ceisiadau cynllunio, mewn papurau newydd print lleol a gyhoeddir bob 26 diwrnod o leiaf.[52] Nod cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yw dwyn y wybodaeth hon i sylw cynulleidfa leol eang a rhoi cyfle i bobl leol ymgysylltu â chynigion sy'n effeithio ar eu hardal cyn gwneud penderfyniadau.

6.41 Yn ymarferol, mae'r arian a werir gan awdurdodau lleol ar gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus wedi dod yn ffrydiau refeniw cynyddol bwysig i rai cyhoeddwyr print lleol, gan fod mathau eraill o incwm, megis hysbysebu mewn print, wedi gostwng.[53] O ganlyniad, ystyrir yn eang bod yr arian sy'n cael ei wario ar hysbysiadau cyhoeddus wedi dod yn fath o gymhorthdal ar gyfer rhai teitlau print lleol.[54]

6.42 Fel y nodir yn Adran 4, mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio newyddion a gwybodaeth leol wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i gynulleidfaoedd droi fwyfwy at ffynonellau ar-lein ar draul rhai traddodiadol. Yn gynharach y mis hwn, bu i'r Llywodraeth gydnabod pwysigrwydd cynyddol defnyddio newyddion ar-lein drwy lansio ymgynghoriad ar ddiweddaru'r gyfundrefn uno cyfryngau i gynnwys safleoedd newyddion ar-lein a chylchgronau newyddion, yn ogystal â phapurau newydd print, teledu a radio. Wrth i'r defnydd o newyddion ar-lein gynyddu, mae cylchrediad llawer o bapurau newydd print lleol wedi gostwng ac mae llawer o gyhoeddwyr newyddion lleol traddodiadol wedi addasu i gynnig newyddion ar-lein, ochr yn ochr â newydd-ddyfodiaid sy'n darparu newyddion lleol mewn print a/neu ar-lein. Rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau cynulleidfa yn dal yn fwy dibynnol ar bapurau newydd print i gael gafael ar newyddion a gwybodaeth leol.

6.43 Mynegwyd pryderon yn ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, ac mewn adolygiadau blaenorol,[55] ynghylch y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu lle mae hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu

---

[52] Public Interest News Foundation, 5 Hydref 2023. How do we reform local government spending on public notices?

[53] Mae'r amcangyfrifon yn amrywio o ran faint sy'n cael ei wario ar hysbysiadau cyhoeddus gan awdurdodau lleol. Yn 2012, yn ôl yr Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol, gwariwyd £67.85m. Yn 2022, cyfrifodd PINF ei fod yn £46.29m, ac roedd arolwg a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, a gyhoeddwyd yn 2023, yn amcangyfrif bod mwy na £28m yn cael ei wario bob blwyddyn ar hysbysiadau cyhoeddus, gyda gwariant cyfartalog (cymedrig) cynghorau lleol ym mlwyddyn ariannol 2021/22 yn £76,753.

[54] Y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Seithfed Adroddiad Sesiwn 2022-23, Cynaliadwyedd newyddiaduraeth leol, t. 19.

[55] Er enghraifft, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Awst 2020, White Paper: Planning for the Future, t.15, 19-20. Argymhellion y Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd: Ymateb Llywodraeth yr

hysbysebu. Mae rhai'n teimlo bod y rheolau wedi dyddio drwy ganolbwyntio'n llwyr ar bapurau newydd print sy'n cyhoeddi bob 26 diwrnod o leiaf, gan wahardd darparwyr newyddion ar-lein neu'r rheini sy'n cyhoeddi'n llai aml rhag cael mynediad at y ffrwd refeniw hon. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhanddeiliaid eraill yn erbyn unrhyw newidiadau i'r rheolau hysbysiadau cyhoeddus, gan nodi'r effaith bosibl ar bobl sy'n dibynnu ar bapurau newydd print ar gyfer eu newyddion, yn ogystal â'r risgiau ariannol i ddarparwyr sy'n cael refeniw o hysbysiadau cyhoeddus ar hyn o bryd.

6.44 Cafwyd rhai ymdrechion i ddigideiddio hysbysiadau cyhoeddus, yn ogystal â'u cyhoeddi mewn papurau newydd print, gan gydnabod bod cynulleidfaoedd yn chwilio fwyfwy am wybodaeth leol ar-lein. Er enghraifft, mae awdurdodau lleol fel arfer yn cyhoeddi hysbysiadau ar eu gwefannau eu hunain, ac mae'r News Media Association (NMA) wedi gweithio gyda'i aelodau lleol a rhanbarthol yn y wasg i greu Porth Hysbysiadau Cyhoeddus, wedi'i ariannu gan grant o £1m gan y Google News Initiative, sy'n caniatáu i bobl ledled y DU ganfod, cadw a rhannu hysbysiadau o'u hardal gan chwilio am godau post. Dywedodd yr NMA ym mis Tachwedd 2023 fod y Porth wedi cael miliwn o ymweliadau. Yn yr Alban, sefydlwyd porth Tellmescotland gan y Gwasanaeth Gwella, y sefydliad ar gyfer gwella llywodraeth leol yn yr Alban, i ganiatáu i bobl gael mynediad at hysbysiadau cyhoeddus a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ledled yr Alban. Gall y pyrth hyn ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i hysbysiadau cyhoeddus ar-lein, er bod y dull hwn yn dibynnu ar fod pobl leol yn ymwybodol bod y pyrth yn bodoli ac yn mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am wybodaeth hysbysiadau cyhoeddus, yn hytrach na'i darganfod yn naturiol mewn papur newydd neu ar wefan.

6.45 Mae'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid o bob rhan o'r sector ynghylch y rheolau presennol ar osod hysbysiadau cyhoeddus – a'r effaith bosibl ar y rheini sy'n cael refeniw hysbysiad cyhoeddus ar hyn o bryd pe bai'r rheolau'n cael eu newid – yn hirsefydlog ac yn barhaus. Rydym yn cydnabod efallai nad yw'r rheolau presennol ar hysbysiadau cyhoeddus yn gyfredol o ran sut mae pobl yn defnyddio newyddion a gwybodaeth leol, a faint o gyhoeddwyr sydd nawr yn ceisio cyrraedd cynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn cydnabod bod risgiau posibl o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r rheolau hysbysiadau cyhoeddus yn wynebu'r sector papurau newydd lleol sy'n fwyfwy bregus, a chynulleidfaoedd sydd â llai o ymgysylltiad digidol.

### Crynodeb

Mater i'r Llywodraeth yw'r rheolau ar gyfer hysbysiadau cyhoeddus. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod pryderon am y rheolau presennol, a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau posibl iddynt, yn parhau i fodoli ar draws y sector. Rydym wedi adlewyrchu'r sbectrwm barn rydym wedi'i weld ar y pwnc hwn, a allai helpu i lywio unrhyw drafodaethau pellach ar y mater.

## Ardaloedd Llywodraeth Leol

6.46 Roedd trafodaethau â rhanddeiliaid yn dangos y gallai fod lle i Awdurdodau Lleol a Meiri Metro chwarae rhan yn cefnogi ecoleg y cyfryngau lleol ym mhob un o'u hardaloedd. Mae'r

---

Alban, 14 Mehefin 2022. Y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Seithfed Adroddiad Sesiwn 2022-23, Cynaliadwyedd newyddiaduraeth leol, t. 19-21. Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru, Gorffennaf 2023. O Gymru ac i Gymru: Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd, t.18. Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru, Mawrth 2024, Adroddiad Cam 1 Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), t.69-74.

syniadau'n cynnwys hyrwyddo'r ddarpariaeth barhaus o newyddion lleol drwy ymgysylltu'n fwy gweithredol â newyddiadurwyr lleol, codi ymwybyddiaeth o deitlau newyddion lleol a thynnu sylw at bwysigrwydd ffynonellau dibynadwy o newyddion lleol, gyda'r nod o helpu i annog mwy o ymgysylltu ymysg y cyhoedd â darparwyr cyfryngau lleol dibynadwy. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol a'r goblygiadau cyllido sy'n gysylltiedig â rhai o'r themâu a'r syniadau hyn.

## Mynediad newyddiadurol i gyrff cyhoeddus

6.47 Mae'n bwysig bod y wasg yn gwbl annibynnol a'i bod yn gallu dal cyrff cyhoeddus lleol i gyfrif ar ran pobl leol. Yn benodol, wrth i fwy o rym yn Lloegr gael ei ddatganoli o San Steffan i arweinwyr lleol ar draws y rhanbarthau, bydd mwy o gyfrifoldeb ar gyhoeddwyr lleol i ddal sefydliadau cyhoeddus lleol i gyfrif. Roedd rhai rhanddeiliaid a chyfranogwyr yn ein hymchwil cynulleidfa yn teimlo bod darparwyr newyddion lleol nawr yn defnyddio datganiadau i'r wasg gan gyrff cyhoeddus neu gynnwys arall wedi'i greu ymlaen llaw i gynhyrchu straeon, yn hytrach na chynnal eu hymchwiliadau eu hunain ar faterion.[56] Awgrymodd un rhanddeiliad wrthym fod yr arfer hwn, yn rhannol, yn bodoli oherwydd ei bod yn anoddach cael mynediad at amrywiaeth o gyrff cyhoeddus ac ymgysylltu â nhw.

6.48 Gallai awdurdodau lleol ystyried ffyrdd o gefnogi atebolrwydd a chraffu ar eu gwaith. Mae'r Fframwaith Atebolrwydd Datganoli yn Lloegr, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn 2023, yn awgrymu ffyrdd y gallai sefydliadau alluogi mwy o graffu gan gyhoeddwyr newyddion lleol a chenedlaethol, ac mae'r cytundebau 'braenaru' ym Manceinion Fwyaf a Gorllewin Canolbarth Lloegr yn ymrwymo'r Awdurdodau hynny, lle bo'n briodol, i gynnal sesiynau Cwestiynau'r Maer, "wedi'u cadeirio gan berson annibynnol – newyddiadurwr neu berson busnes lleol, er enghraifft". Gallai fod lle i gyrff cyhoeddus eraill ledled y DU ddysgu o'r math hwn o ddull gweithredu.

## Hysbysebion awdurdodau lleol

6.49 Mae rhai darparwyr newyddion lleol wedi galw am newidiadau i'r ffordd y mae llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn gosod hysbysebion. Mae cyhoeddwyr mwy wedi dadlau dros roi mwy o hysbysebu gyda darparwyr cyfryngau lleol yn hytrach na chyfryngwyr ar-lein. Mae cyhoeddwyr llai wedi awgrymu bod hysbysebion sy'n cael eu rhoi mewn cyfryngau lleol fel arfer yn mynd at gyhoeddwyr lleol mawr, ac yn teimlo y gall fod yn heriol i newydd-ddyfodiaid a darparwyr llai elwa o wariant llywodraeth ganolog a lleol ar hysbysebu. Nodwyd y pryderon hyn yn ymchwiliad Pwyllgor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i adroddiad cynaliadwyedd newyddiaduraeth leol, a oedd yn argymell bod y Llywodraeth yn archwilio'r arian cyhoeddus sy'n cefnogi'r sector newyddion lleol, ac yn dilyn hynny gyda dadansoddiad ynghylch a ellir dosbarthu'r arian hwn yn decach. Ymatebodd y Llywodraeth bod ei gwariant hysbysebu yn cael ei ddosbarthu yn unol ag ystyriaethau polisi sy'n ymwneud â chyrhaeddiad cynulleidfa ac effeithiolrwydd ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ac ni fyddai'n briodol dadansoddi'r gwariant hwn gyda golwg ar ailddosbarthu yn unol â nodau cynaliadwyedd y wasg.

6.50 Mae gwariant ar hysbysebu ar lefel genedlaethol a lleol wedi dod yn ffynhonnell refeniw bwysig i ddarparwyr cyfryngau lleol. Fodd bynnag, yn wahanol i hysbysiadau cyhoeddus lle

[56] Ymchwil defnyddwyr ansoddol cyfryngau lleol Ofcom 2024, t.36.

mae'n ofynnol i awdurdodau lleol osod hysbysiadau mewn papurau newydd cyhoeddus, rydym yn cydnabod mai prif nod hysbysebion y llywodraeth yw cyfathrebu â'r gynulleidfa ehangaf bosibl ar yr un pryd â darparu gwerth am arian i drethdalwyr, a bod blaenoriaethau tebyg yn debygol o fod gan awdurdodau lleol wrth ddyrannu eu cyllidebau hysbysebu. O ystyried y newidiadau mewn patrymau defnyddio newyddion, efallai y bydd cyrff cyhoeddus lleol eisiau ystyried y rôl y gallai darparwyr newyddion llai a newydd ei chwarae o ran cyflawni cyrhaeddiad eang a sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr.

### Ymwybyddiaeth, ymgysylltu ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

6.51 Awgrymodd rhanddeiliaid amrywiaeth o ffyrdd y gallai llywodraeth leol gefnogi ymwybyddiaeth o'r wasg leol ac ymgysylltiad â'r wasg leol ymysg cymunedau. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau talebau newyddion i annog tanysgrifio i deitlau a mentrau lleol i gymell cyhoeddwyr i ddychwelyd i'r stryd fawr, gyda'r nod o adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng cyhoeddwyr newyddion lleol a newyddiadurwyr a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mynegwyd hefyd yr awydd i weld y rhyddhad ardrethi busnes i fusnesau papurau newydd lleol yn cael ei ymestyn, sy'n fater i'r llywodraeth.

6.52 Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i wreiddio addysg ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y rhaglenni cydlyniant cymunedol presennol sy'n cael eu darparu, er enghraifft ar ffurf hyfforddi ffigurau allweddol mewn sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad i ddarparu sesiynau, mewn partneriaeth â darparwyr newyddion lleol.

### Crynodeb

Mae llawer o awdurdodau lleol yn wynebu rhagolygon ariannol heriol, a allai gyfyngu ar eu gallu i ddarparu cymorth ariannol i'r sector newyddion lleol megis drwy wario ar hysbysebion neu gynlluniau rhent y stryd fawr. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi awgrymu ffyrdd eraill y gallai awdurdodau lleol gefnogi newyddion lleol yn eu hardaloedd, gan gynnwys drwy fynediad at gyrff cyhoeddus a ffigurau allweddol i gefnogi gallu newyddiadurwyr i ddal sefydliadau lleol i gyfrif a chraffu ar benderfyniadau ar ran pobl leol.

# Ystyriaethau ar gyfer y sector

6.53 Er bod lle i ddatblygu rhagor o ymyriadau allanol i helpu i gefnogi'r sector, rydym hefyd yn annog darparwyr newyddion lleol i barhau i herio eu hunain i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o fynd i'r afael â'r problemau y mae'r sector yn eu hwynebu.

## Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

6.54 Fel y nodir yn Adran 5, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau o ran cefnogi cynulleidfaoedd i nodi newyddiaduraeth leol a gynhyrchir yn broffesiynol fel rhywbeth sy'n wahanol i fathau eraill o wybodaeth. Rydym hefyd yn cydnabod bod ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gallu gwella dealltwriaeth y cyhoedd o werth newyddion er budd y cyhoedd wrth ddal pŵer i gyfrif, fel drwy ymchwilio i achosion o gamddefnyddio pŵer yn y byd cyhoeddus a phreifat, drwy gefnogi cydlyniant cymunedol, a helpu cynulleidfaoedd i ddeall a theimlo eu bod yn rhan o brosesau democrataidd lleol.[57]

[57] Adolygiad Cairncross.

6.55 Ar hyn o bryd, mae llawer o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n canolbwyntio ar newyddion yn y DU yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd sector[58] mewn amgylchedd cyllido bregus sydd heb gyllid cynaliadwy, tymor hir. Mae rhai'n cael cyllid gan wasanaethau ar-lein gan gynnwys llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ond gyda'i gilydd nid yw'r gwaith hwn yn cyflawni ar raddfa fawr ac mae ymchwil yn awgrymu mai dim ond ffracsiwn o boblogaeth y DU mae'n ei gyrraedd. Mae annog gwasanaethau ar-lein i hybu, cefnogi ac ariannu'n uniongyrchol y gwaith o ddatblygu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn nod yn ein Strategaeth Tair Blynedd ar gyfer

Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau.

6.56 Yn y cyd-destun hwn, mae gan y darparwyr newyddion rôl i'w chwarae hefyd o ran cefnogi sgiliau eu cynulleidfaoedd o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae rhai sefydliadau newyddion cenedlaethol yn cynnal rhaglenni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gan gynnwys y Guardian Foundation, Sky News a'r BBC. Mae'r rhain yn amrywio o ymyriadau wyneb yn wyneb i ddarparu deunyddiau ar-lein. Ar lefel leol, mae darparwyr annibynnol fel y Ferret yn dysgu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a gwybodaeth am ymyriadau, gan gynnwys drwy ei weithdai gwirio ffeithiau.

6.57 Nodwn fod PINF wedi galw am raglen addysg i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o newyddion er budd y cyhoedd ymysg y cyhoedd fel rhan o'i lasbrint sylfaenol. Mae gwaith allgymorth PINF yn 2024 yn canolbwyntio ar feithrin gallu yn eu rhwydwaith o gyhoeddwyr newyddion annibynnol, gan nodi ffyrdd o gynnwys cynulleidfaoedd yn y broses o greu newyddion. Nid yw'n cyfeirio at raglen addysg llythrennedd newyddion gyffredinol.

6.58 Ar sail ein hymchwil, a'r hyn rydyn ni'n ei wybod gan ein rhanddeiliaid, mae dulliau gweithredu o'r gwaelod i fyny sy'n ymgysylltu â phobl ar lawr gwlad yn arbennig o effeithiol o ran sicrhau canlyniadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac effaith barhaol o bosibl. Mae ein hymchwil hefyd yn argymell dulliau cyd-ddylunio sy'n cynnwys cynulleidfaoedd wrth ddylunio rhaglenni. Mae gofyn i bobl gyfrannu eu profiadau bywyd a siarad am yr hyn y gallai fod ei angen arnynt yn atal rhaglenni rhag addysgu'r hyn y mae pobl eisoes yn ei wybod.[59] Fel y nodir isod, byddem hefyd yn annog cyhoeddwyr i ystyried cyfleoedd i gydweithio yn y maes hwn, i rannu profiad ac arbenigedd ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn well.

[58] Ofcom media literacy initiatives library.
[59] Ofcom, 13 Mehefin 2022. Making Sense of Media – Initiate: what works in delivering community programmes.

### Crynodeb

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd agwedd llawr gwlad at ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n ymgysylltu â chymunedau ac felly rydym yn argymell bod sefydliadau newyddion lleol yn datblygu rhaglenni llythrennedd newyddion ar y cyd â'u cymunedau. Gall y dulliau hyn gael eu llywio gan ein harbenigedd ynghylch hyn sy'n gweithio o ran darparu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar lefel gymunedol.[60] Rydym yn awgrymu y gallai unrhyw raglenni ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau a nodwyd yn ein strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau – plant a phobl ifanc, a chymunedau sy'n wynebu anfantais ariannol. Gwyddom o'n hymchwil a gwaith pobl eraill y gall y grwpiau hyn gymryd llai o ran mewn newyddion a phrosesau democrataidd lleol. Rydym yn cydnabod yr heriau cyllido sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn ar gyfer darparwyr newyddion lleol.

## Arloesi a chydweithio

6.59 Dylai cyhoeddwyr o bob maint barhau i herio eu hunain i archwilio eu gallu i arloesi'n olygyddol er mwyn galluogi cynulleidfaoedd i ganfod a chael gafael ar gynnwys newyddion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd mor hawdd â phosibl. Dylai cyhoeddwyr hefyd ystyried beth arall y gallant ei wneud i godi proffil eu gwaith a sut y gallant ymgysylltu mwy â'u cymunedau lleol.

6.60 Ar ben hynny, efallai y bydd darparwyr a chynulleidfaoedd yn elwa o gyhoeddwyr yn cydweithio mwy. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi dod ar draws amrywiaeth o enghreifftiau o bartneriaethau a chydweithrediadau llwyddiannus yn y diwydiant o wahanol feintiau, fel:

a) Mae S4C, mewn partneriaeth ag ITV Cymru Wales, yn darparu cynnwys materion cyfoes Cymraeg ffurf-fer ar gyfer llwyfan *Hansh Dim Sbin* ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar gyfer gwasanaethau newyddion digidol S4C, sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc.
b) Daeth pedwar teitl newyddion ym Mryste – Bristol Live, Bristol World, Bristol 24/7 a Bristol Cable – at ei gilydd ym mis Mawrth 2024 ar gyfer ymgyrch gyda'r nod o fynd i'r afael â throseddau cyllyll yn y ddinas. Adroddodd darparwyr newyddion lleol eraill am yr ymgyrch hefyd, gan gynnwys BBC Bristol.
c) Ym mis Mehefin eleni, cynhaliodd y Sefydliad Newyddion er Budd y Cyhoedd (PINF) ei Wythnos Newyddion Annibynnol gyntaf i godi proffil darparwyr newyddion annibynnol ledled y DU, gan gynnwys drwy ymgysylltu â'r gymuned. Cynhaliodd llawer o gyfranogwyr ddigwyddiadau neu fentrau eraill gan weithio gyda sefydliadau lleol, megis drwy ymweld ag ysgolion a chanolfannau addysg.

6.61 Efallai y bydd cyfle i gydweithio ar raddfa fawr ac ar raddfa fach ar draws y sector, yn amodol ar gydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth. Er enghraifft, gallai prosiectau mwy gynnwys datblygu cynllun ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a/neu hyrwyddo ymwybyddiaeth ar y cyd o rôl a gwerth cyfryngau lleol i gymunedau lleol, tra gallai cydweithrediadau llai olygu bod darparwyr mewn ardal leol ar wahanol lwyfannau yn cronni adnoddau i gwmpasu straeon a datblygu talent, neu'n creu partneriaethau tymor hir gyda phrifysgolion lleol neu ddarparwyr radio cymunedol.

[60] Rydyn ni'n rhannu'r wybodaeth hon ac yn creu lle i randdeiliaid ddod at ei gilydd a rhannu arferion gorau gan ddefnyddio ein rhwydwaith MSOM, lle rydyn ni'n cyfathrebu ein digwyddiadau, ein gweithdai cyfranogi a'n cyhoeddiadau am ddim.

6.62 Mae gan y BBC hefyd rôl bwysig i'w chwarae mewn partneriaethau a chydweithio ar draws sectorau. O dan y Siart Frenhinol , mae'n ofynnol i gydweithio a cheisio ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill, yn enwedig yn yr economi greadigol, lle byddai gwneud hynny er budd y cyhoedd. Mae'r Bartneriaeth Newyddion Lleol yn enghraifft bwerus o gydweithio rhwng y BBC a diwydiant newyddion rhanbarthol y DU i gefnogi gohebu er budd y cyhoedd, cynnal democratiaeth leol a gwella sgiliau mewn newyddiaduraeth; rydym yn trafod y Bartneriaeth yn fanylach uchod. Mae enghreifftiau hefyd o'r BBC yn cydweithio â'r sector yn ehangach, er enghraifft, diweddarodd y BBC a'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol eu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ddiweddar sy'n ceisio cryfhau'r berthynas a'r cydweithio rhwng aelodau'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom a radio lleol y BBC. Mae hyn yn dilyn rhannu cynnwys radio lleol y BBC â gorsafoedd cymunedol yn ystod pandemig Covid-19.

6.63 Mae'n rhaid i'r BBC hefyd ddarparu dolenni digonol at ddeunydd a ddarperir gan drydydd partïon mewn perthynas â BBC Ar-lein. Mae'r gofyniad hwn yn ceisio sicrhau bod y BBC yn dryloyw gyda'i ffynonellau, yn darparu rhagor o wybodaeth i gynulleidfaoedd, ac yn cydnabod allfeydd newyddion eraill pan fyddant yn ffynhonnell stori. Ar ei wefan, mae'r BBC yn egluro ei ddull o gysylltu â safleoedd newyddion eraill ac yn dweud bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi ei bolisi o wneud hynny.

6.64 Yn 2024, dywedodd y BBC fod 79% o sampl o straeon ar ei wefannau BBC News a BBC Sport yn cynnwys dolenni i dudalennau allanol ac roedd 27% o'r dolenni hyn i sefydliadau cyfryngau eraill (21% o'r holl straeon a samplwyd). Ar ei straeon newyddion lleol, mae'r BBC yn cyhoeddi cyfres o ddolenni i straeon gan gyhoeddwyr masnachol lleol ar waelod pob tudalen, a nododd yn 2022 ei fod yn anfon 575,000 o atgyfeiriadau ar gyfartaledd i wefannau papurau newydd lleol bob wythnos. Yn ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, roedd rhai yn galw ar y BBC i wneud y cysylltiadau hyn yn fwy amlwg fel ffordd o gefnogi'r sector cyfryngau lleol ehangach.

6.65 Rydym yn annog y BBC i barhau i chwilio am ragor o gyfleoedd i gydweithio a chreu partneriaeth â chwaraewyr eraill yn y sector cyfryngau lleol, gan gydnabod y cysylltiadau a'r rhaglenni presennol y mae wedi'u datblygu. Nodwn fod awgrym tebyg wedi'i wneud yn rhan o Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth ym mis Ionawr 2024.[61] Gan nodi'r arbenigedd mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau y mae'r BBC wedi'i ddatblygu drwy brosiectau fel y rhaglen Real News, ei brosiect Other Side of the Story, a thrwy ei elusen Media Action ryngwladol, gall hwn fod yn faes i'w ystyried. Yn ei Adroddiad Blynyddol 2023/24, mae'r BBC yn adrodd bod ganddo 445 o bartneriaethau a chydweithrediadau ar draws y BBC yn y flwyddyn honno, gyda phump o'r rhain yn ymwneud â newyddion a materion cyfoes. Mae hyn yn cynnwys y Bartneriaeth Newyddion Lleol, a ddisgrifir uchod, gyda'r BBC yn buddsoddi £8m y flwyddyn yn yr LDRS.

[61] Paragraff 329 o Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r BBC.

## Crynodeb

Efallai y bydd cyfleoedd i ddarparwyr newyddion lleol archwilio sut gallant arloesi ymhellach i ddenu cynulleidfaoedd a chynhyrchu refeniw, fel treialu gwahanol ffyrdd o ddarparu cynnwys. Efallai y bydd hefyd yn bosibl i ddarparwyr newyddion lleol gydweithio ymhellach neu gymryd rhan mewn partneriaethau (yn amodol ar gydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth) sy'n caniatáu iddynt gyfuno syniadau ac adnoddau, rhannu syniadau a chyrraedd cynulleidfaoedd ehangach gyda newyddion lleol. Rydym hefyd yn annog y BBC i chwilio am ragor o gyfleoedd i gydweithio, partneru ac ymgysylltu â darparwyr eraill yn y sector lleol.

# 7. Y camau nesaf

7.1 Er bod yr adroddiad hwn yn nodi diwedd ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol, byddwn yn parhau i ystyried y sector o ran cyflawni ein dyletswyddau sy’n berthnasol i newyddion a chyfryngau lleol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r llywodraeth fel y bo’n briodol.

7.2 Ochr yn ochr â’r adroddiad terfynol hwn, rydym wedi cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC ar gyfer 2023/24. Wrth edrych ymlaen, rydyn ni’n bwriadu cynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC ddiweddariad o’n barn ar sefyllfa’r BBC yn y sectorau newyddion lleol. Fel rhan o hyn, byddwn yn monitro metrigau allweddol mewn perthynas â safle’r BBC yn y sectorau newyddion lleol (er enghraifft, cyfrannau gwylio/gwrando) ac effaith unrhyw newidiadau ychwanegol i wasanaethau newyddion lleol/rhanbarthol y BBC. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad yn ofalus, gan gynnwys drwy ymgysylltu’n rheolaidd â rhanddeiliaid.

7.3 Yn fwy cyffredinol, rydym wedi lansio ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM) diweddaraf, a fydd yn bwrw ymlaen â llawer o’r materion rydym wedi’u nodi yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol. Byddwn hefyd yn ystyried canfyddiadau perthnasol adroddiad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ’r Arglwyddi a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddyfodol newyddion yn ail gam ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2025. Byddwn hefyd yn gwneud gwaith yn 2025 i adnewyddu trwyddedau teledu lleol ac i weithredu newidiadau i reoleiddio radio masnachol lleol a gyflwynwyd gan Ddeddf y Cyfryngau. Bydd rhagor o waith yn cynnwys comisiynu rhaglen o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n eu grymuso i ymwrthod â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth drwy ddatblygu sgiliau ynghylch ymwybyddiaeth o’r cyfryngau a newyddion, yn ogystal â chomisiynu rhagor o ymchwil i ddiweddaru ein harolwg o gynulleidfaoedd newyddion lleol, a gynhaliwyd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2023.